# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

**Rhifyn 576 · Mehefin 2026 · £1**

## Carnifal!



Daeth cannoedd o bobl i strydoedd Bethesda dros y penwythnos i fwynhau Carnifal Bethesda 2026, gyda'r pentref yn llawn lliw, cerddoriaeth ac awyrgylch arbennig drwy'r dydd. Er gwaethaf y glaw ar adegau, ni lwyddodd y tywydd i atal y dathlu, gyda'r gymuned yn dod ynghyd unwaith eto i wneud y digwyddiad yn lwyddiant ysgubol.

Uchafbwynt y diwrnod oedd yr orymdaith flynyddol drwy'r pentref, gyda fflotiau creadigol, grwpiau lleol, plant mewn gwisgoedd ffansi a nifer fawr o sefydliadau cymunedol yn cymryd rhan. Cafwyd cefnogaeth wych gan drigolion ac ymwelwyr, gyda'r strydoedd yn llawn o bobl yn mwynhau'r dathlu er gwaethaf y glaw.

Roedd sain drymiau egnïol Batala Bangor yn sicr yn uchafbwynt i lawer, wrth i'r band greu awyrgylch carnifal arbennig a chadw'r dorf yn dawnsio a chlapio drwy'r dydd. Hefyd yn rhan bwysig o'r adloniant oedd y Majorettes, a gafodd groeso cynnes gan y dorf wrth arddangos eu trefniadau a'u sgiliau.

Yn ystod y prynhawn a'r hwyr, cafwyd adloniant byw ar y maes gan nifer o artistiaid poblogaidd, gan gynnwys Y Cyffro, a lwyddodd i godi'r to gyda'u perfformiad llawn egni. Roedd Efan Electro hefyd yn ffefryn mawr ymysg y dorf, gyda'i set fywiog yn cadw'r awyrgylch yn fyw drwy'r nos, cyn i Dylan Morris ddod â'r dathlu i ben mewn steil gyda pherfformiad arbennig a gafodd ymateb gwych gan y gynulleidfa.

Roedd y Rhaglen Heno yno yn ffilmio yn ystod y dydd a gafodd ei ddangos ar S4C i bawb yng Nghymru gael gweld faint o Gymuned arbennig sydd gan Bethesda.





Dywedodd Pwyllgor y Carnifal eu bod yn hynod ddiolchgar i'r holl wirfoddolwyr, noddwyr, busnesau lleol, perfformwyr a phawb fu'n helpu cyn ac yn ystod y diwrnod. Heb gefnogaeth y gymuned, ni fyddai'n bosib cynnal digwyddiad mor llwyddiannus flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Ychwanegodd y Pwyllgor fod gweld y gymuned yn dod ynghyd unwaith eto — heb adael i'r glaw ddifetha'r hwyl — wedi gwneud yr holl waith caled yn werth chweil, ac maent eisoes yn edrych ymlaen at ddechrau cynllunio Carnifal Bethesda 2027.



Lluniau'r carnifal gan Nick Pipe.





# Llais Ogwan

## Rhif 576
## Mehefin 2026


**Panel Golygyddol**
Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

**Swyddogion**
**CADEIRYDD**
Carwyn Meredydd
carwynian@hotmail.com

**Trefnydd hysbysebion**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd**
Gareth Llwyd
07887 667956
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN (Ffôn 600184) post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Trystan Pritchard**.

Y golygydd ym mis Gorffennaf fydd **Neville Hughes**.

14 Ffordd Pant, Bethesda, LL57 3PA.

01248 600853.

E-bost: nev_hughes@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Sadwrn, 27 Mehefin os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu Nos Iau, 16 Gorffennaf, yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.




## Rhoddion i'r Llais

£10.00 Glyn P. Owen, Amwythig.
£10.00 Helen Wyn Williams, Rachub.

***Diolch yn fawr***

## Clwb Cyfeillion

**Gwobrau Mehefin**
£30.00 (150) Myfanwy Wyn Harper, Llandygai.
£20.00 (29) Mair Pierce Owen, Bethesda.
£10.00 (119) Helen Wyn Williams, Llanllechid.
£5.00 (35) Huw Derfel Jones, Gerlan.

***Diolch yn fawr***

## Dyddiadur y Dyffryn

**Mehefin**
20 Roc y Ddôl, Clwb Rygbi Bethesda
23 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.
26 Cyngerdd Côr Penrhyn. Eglwys Crist Glan Ogwen am 7.00.
29 Clwb Coffi Talybont, Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
30 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**Gorffennaf**
01 Te Mefus. Festri Bethlehem, Talybont am 7.00.
14 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.
16 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr uchaf Cefnfaes am 6.45.
28 Gyrfa Chwist. Canolfan Cefnfaes am 6.45.

## Calendr Llais Ogwan 2027

**PWYSIG**



'Rydym yn y broses o lunio Calendr Llais Ogwan ar gyfer 2027. Os ydych yn dymuno nodi unrhyw ddigwyddiadau lleol yn y Calendr, a fedrwch anfon manylion at:

Gareth Llwyd

garethllwyd197@btinternet.com

cyn diwedd mis Mehefin ar yr hwyraf os gwelwch yn dda?

Dyma eich cyfle i ddwyn sylw at ddigwyddiadau a dyddiadau arbennig yng nghalendr Dyffryn Ogwen yn ystod 2027.

***Newyddion Gorffennaf i'w dderbyn erbyn dydd Sadwrn, 27 Mehefin***
***Dyddiad cyhoeddi 16 Gorffennaf***

***Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen? Cysylltwch a Neville Hughes - nev_hughes@btinternet.com***


Ariennir yn rhannol gan Llywodraeth Cymru
CYMRAEG


***Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com***

# Bins of Bethesda: Pan Fydd Bin yn Troi'n Destun Chwedl

Mae Bethesda, pentref llechi'r gogledd, sydd wedi gweld mwy na'i siâr o hanes bellach yn sefyll ar drothwy ffenomen newydd: Bins of Bethesda. Nid band, nid artist graffiti, ond cyfrif Instagram sy'n newid ein ffordd o edrych ar y byd. A'i arf? Biniau.

Yn syml ar yr olwg gyntaf, ond mewn gwirionedd yn ddyfais athrylithol. Mae pobl yn stopio yn y stryd. Maen nhw'n tynnu llun. Maen nhw'n chwerthin. Ac am eiliad, mae'r bin plastig du syml yn troi'n gampwaith celf gyhoeddus.



Ond mae drama arall yn cuddio y tu ôl i'r hiwmor. Nid oes neb yn gwybod pwy sy'n gyfrifol. Ydy'n fyfyriwr celf? Cyn-weithiwr y cyngor wedi blino ar sbwriel? Neu ffigwr mwy enigmatig byth – Banksy Bethesda? Mae'r ansicrwydd yn rhoi awyrgylch chwedlonol i bob post.

Nid jest rhannu lluniau mo hyn. Mae Bins of Bethesda yn sgorio'r biniau hefyd, fel beirniaid ar sioe dalent. Y bin wrth Spar? 4 seren, lleoliad canolog ond diffyg carisma. Y bin ar gornel Stryd Fawr? 5 seren lawn, "awyrgylch epig, golygfeydd ehangach, bron fel bin sy'n gweiddi anthem i'r mynyddoedd."

Yn sydyn, mae biniau'n destun gwrs mewn caffi. Mae pobl yn cynllunio teithiau i dynnu llun gyda'r "bin gorau" a rhieni'n dweud wrth eu plant: "Peidiwch â thaflu sbwriel – efallai bod Bins of Bethesda yn gwylio."

Mae hyn oll yn swnio'n wirion, ond mae'r neges o dan y ddrama yn syml a phwerus: caru'r lle rydych chi'n byw. Trwy droi sbwriel yn gelf ac yn jôc, mae Bins of Bethesda wedi gwneud i ni edrych ar ein strydoedd gydag edrychiad newydd – rhwng edmygedd a chwerthin.

Ac felly, yn ein pentref bach ni mae biniau'n dod yn arwyr di-liw ond dylanwadol. Pwy fyddai wedi credu mai drwy Instagram y byddai Bethesda'n ail-ysgrifennu hanes ei hun – bin ar ôl bin?




Ogwen
Adferiad Corfforol

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol

LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE


## Pentir

**Ras Hwyl Pentir**

Bydd y digwyddiad blynyddol yma'n cymryd lle am 19.00, 8fed Gorffennaf, 2026 ac yn cychwyn o flaen Rhes Hen Gapel, Rhyd-y-Groes. Mae'r ras yn defnyddio llwybrau cyhoeddus ac yn mynd heibio Fferm Moelyci gan ddilyn lonydd cefn gwlad ddistaw.

Bydd mwy o fanylion am y ras i'w gweld ar y cyfryngau cymdeithasol yn nes at yr amser. Bydd unrhyw elw a wneir yn cael ei ddosbarthu rhwng elusennau lleol.

**Cinio Mawr**

Cynhelir 'Cinio Mawr Pentir' brynhawn dydd Sadwrn, 11eg Gorffennaf, 2026. Mae'r lleoliad yr un a fu tro diwethaf sef, y tir cyhoeddus ger llaw i Getws Plas Pentir.

**Dymuniadau gorau**

Wrth gymryd rhan mewn ras hwyl er mwyn codi arian i ysbyty yn Sierra Leone bu i Vince gael codwm drwg iawn. Deallwn ei fod yn gwella ac y gwelwn ef eto yn rhedeg gyda'i ddau gi ar lwybrau'r ardal.

**Baw ci**

Fel yn nifer o ardaloedd eraill mae'r ardal yn dioddef oherwydd esgeulustod a diogi rhai perchnogion cŵn. Yn yr ardal yma gwelir bagiau baw cŵn wedi eu gosod ar ben wal nau ar frigyn coed. Yr arfer gwaethaf a welwyd oedd bag baw ci wedi ei adael ar ben giât mochyn. Pan ofynnwyd i berson gyda ci beth oedd pwrpas yr arferiad yma, yr ateb a gafwyd oedd bod y perchennog yn codi'r bag ar ei ffordd yn ôl.

Wel, dim yna ydy'r profiad yn ardal Pentir, gyda'r bagiau yn parhau yn yr un lle ddyddiau wedyn.

Mae'n ddryswch paham mae perchnogion yn gwneud y fath beth ac yn sicr mae rhyw ateb seicolegol i'r arferiad budr yma.

Yn ddiweddar rydym wedi cael dau fin baw ci yn yr ardal a'r gobaith ydy bod perchnogion cŵn yn eu defnyddio.

## Cyfarfod Sefydliad y Merched Carneddi

Croesawodd Nicola pawb i festri Jerusalem.

Roedd Sefydliad y Merched Dolwyddelan wedi cael gwahoddiad atom i gael gêm o Boccia.

Nid oedd Llythyr misol oherwydd fod Mrs Margaret Lloyd Jones heb fod yn dda yn ddiweddar.

Hefyd clywsom fod Ms Carol Houston, ffrind da i'n Sefydliad ni wedi colli ei phartner ac roeddem yn anfon ein cydymdeimlad ati hi a'r teulu.

Daeth tair aelod o Dolwyddelan atom a chawson nifer o gemau mewn timau cymysg. Cafwyd noson hwyliog iawn.

Trwy sgwrsio dros banad darganfuwyd bod Gwyneth a Nicola yn perthyn i un o'r aelodau o Dolwyddelan a 'rioed wedi cyfarfod o'r blaen. Byd Bach!

Roedd pump gwobr raffl i'r aelodau lwcus. Diolch i'r gwest wragedd Delyth a Helen ac i Gwyneth ac Annwen am y cacennau a bara brith. Angharad Tomos fydd yn ein cyfarfod mis Mehefin.

# SFA OK

## – Y Super Furries yn ôl!



Lluniau: Tim Alban

Mae'n anodd gor-ddweud beth mae ail-ddyfodiad Super Furry Animals yn ei olygu i gymaint ohonom yma ym Methesda. I lawer, dydy nhw erioed wedi bod jest fand yn unig. Mae nhw'n rhan o'r ardal, o dyfu fyny ac o'r hwyl a'r diwylliant sydd wastad wedi gwneud y lle yma'n arbennig.

O ddyddiau cynnar Gruff Rhys yn tyfu i fyny ym Methesda a dyfodiad band Ffa Coffi Pawb, aeth ymlaen i greu cerddoriaeth hollol unigryw a bythol wreiddiol. Ac mae'r cysylltiad lleol wastad wedi aros yn gryf gyda Gruff yn dod nol i gymryd rhan yng Ngwyl Ara Deg bob blwyddyn.

Mae gweld y Furries yn ôl ar lwyfan unwaith eto wedi dod â gwir gyffro ymysg ffans hen a newydd. Roedd yna deimlad arbennig iawn cyn y gig yn Llandudno fis Mai. Nid cynnwrf gwag oedd o, ond y math yna o gyffro sy'n bodoli dim ond ymysg pobl sydd wedi byw efo'r band yma ers degawdau. Roedd y fforymau, y grwpiau a'r hen luniau yn dod yn fyw eto, pobl yn trafod setlists ac yn ail-fyw atgofion. Roedd pawb yn gwybod fod hwn yn fwy na dim ond gig.

A dyna'r peth am Super Furry Animals, mae bron yn amhosib eu disgrifio'n iawn.

Am flynyddoedd dwi wedi trio egluro beth yn union sy'n gwneud y band yma mor arbennig, a dwi dal methu ei gyfleu. Dwi'n cofio hen fos i mi yn cwyno bod pob cân yn swnio'r un fath. Doedd gen i fawr i ddweud wrthi wedi hynny! Dyna'r peth olaf un fedrwch chi ddweud amdanyn y band cyffrous, ecelctig, hollol unigryw yma.

Yndi, mae'n anodd rhoi eich bys ar bwy ydyn nhw. Mae eu cerddoriaeth fel rhyw gymysgedd hollol wallgof o roc Cymraeg, techno niwlog, pop traeth, glam indie, acid house, melancholia gwerin a phync electronig. Ac er mor hurt mae hynny'n swnio ar bapur, rhywsut mae'r gymysgfa o sain yma yn gweithio'n berffaith.

Dyna ydy eu dawn nhw. Wastad yn gwneud i ni feddwl ac i fwynhau ond byth yn aros yn eu hunfan, wastad yn symud, wastad yn arloesi ac yn torri tir newydd wrth fynd.

I mi, does neb erioed wedi cyffwrdd Super Furry Animals. Dwi'n hoff iawn o Oasis. Mae'r Manics Street Preachers wedi siapio fy ffordd o weld y byd mewn sawl ffordd. Ond mae'r Furries mewn categori hollol ar wahân. Mae





eu cerddoriaeth nhw wastad wedi cyd-fynd efo cyfnodau hapusaf fy mywyd.

Mae'r caneuon yn cario'r atgofion efo nhw. Hafau hir ym Mangor, bywyd yn braf ac yn llawn posibilrwydd. Tafarn y Glôb a'r jiwcbocs yn chwarae Fuzzy Logic ac EPs cynnar Ankst drosodd a drosodd. Wedyn Radiator, albwm sydd, i mi, yn un o gampweithiau mawr cerddoriaeth Cymru ac un o'r albymau gorau erioed.

Roedd rhywbeth arbennig yn y band yma hyd yn oed bryd hynny. Da chi'n gwrando drosodd a drosodd a chlywed rhywbeth newydd bob tro. Haen arall. Syniad arall.

Ac ar y llwyfan yn Venue Cymru, roedd y hud yna dal yn fyw.

O'r eiliad agoriadol o Something 4 the Weekend i ffrwydrad cosmig Ice Hockey Hair, roedd y setlist yn llawn clasuron. Wedyn Demons, Northern Lites, Focus Pocus / Debiel, Ymaelodi a'r Ymylon, yr holl gymysgedd rhyfeddol yna o electronica, gitars fuzz a melodïau dwfn yn llifo'n hollol naturiol.

A wedyn wrth gwrs, The Man Don't Give a F**, yr anthem anferth, seicedelig i orffen. Cymysgfa o wrthryfel a llawenydd gyda'r dorf yn gweiddi pob gair yn ôl.

Ac yn fyw, mae llais Gruff Rhys yn anhygoel o hyd. Un munud mae'n dyner ac yn llawn enaid, y funud nesaf mae'n sgrechian rhyw wallgofrwydd pync electronig, ac rywsut mae'r cwbl yn swnio'n hollol naturiol. Mae Bunf yn cadw'r gitars yn fyw ac yn tarfu ar guriad eich calon, Daf Ieuan yn angori'r cyfan efo'i drymio cain a grymus, a synths yr athrylith Cian Ciarán yn gwthio'r caneuon i lefydd a lefelau hollol annisgwyl.

Dyna oedd tric y Furries, jyst pan oeddech chi'n meddwl eich bod wedi deall y gân, roedd hi'n troi i rhywle arall eto.

Ac efallai dyna pam maen nhw'n golygu cymaint i'w miloedd ar filoedd o ffans ar draws y byd. Wnaethon nhw erioed sefyll yn llonydd yn ddigon hir i fynd yn ddiflas. Roedd pob albwm fel agor drws newydd, weithiau'n brydferth, weithiau'n wyllt, weithiau'n hollol boncyrs, ond wastad yn daith oedd yn werth bod arni.

Felly ar ddiwedd y noson, doedd o ddim yn teimlo fel rhyw atgof sentimental. Roedd o fel croesawu hen ffrind yn ôl. Fel codi perthynas yn union lle gafodd hi ei gadael flynyddoedd yn ôl.

A 30 mlynedd ers eu halbwm cyntaf, dyna'r peth mwyaf rhyfeddol oll efallai.

Mae'r gerddoriaeth dal yn fyw.

Dal yn eich synnu.

Dal yn eich codi.

Dal rhywsut yn swnio fel y gorffennol a'r dyfodol ar yr un pryd.

Mae rhai bandiau yn aros efo chi drwy eich bywyd.

Bydd Super Furry Animals wastad yn rhan mawr o fy un i.

**Trystan Pritchard**

# Rali Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen 2026




Am yr ail waith yn ddilynol, daeth Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen yn fuddugol yn Rali Eryri. Cynhaliwyd y rali eleni yn ffarm Cochwillan, Tal y Bont drwy garedigrwydd Wil Roberts a'i deulu, cafodd y clwb croeso cynnes drwy'r cyfnod paratoi ac ar y diwrnod mawr.

Roedd yr haul yn tywynnu ac roedd hi'n braf cael croesawu 11 o Glybiau Ffermwyr Ifanc Eryri i'n hardal arbennig ni, a thyrfa dda wedi dod ynghyd i gefnogi. Cafodd noson lwyddiannus yn y ddawns, gyda DJ Bustach a Celt yn diddanu wrth ddathlu ein llwyddiant.

Cyn y rali, roedd yna sawl noson o gystadlu gan gynnwys barnu stoc a noson o twrnament rygbi yng Nghlwb Rygbi Bethesda, a'r clwb wedi gwneud yn dda iawn. Hefyd cafodd nosweithiau hir o baratoi'r gwaith cartref a chystadlaethau'r rali. Yn wythnosol, roedd yna ymarfer tynnu rhaff yn Nhŷ Newydd, diolch i'r hyfforddwyr am eu cymorth cyson.

O waith cartref, coginio, gosod blodau, gwaith coed, canu, dawnsio, cneifio a thynnu rhaff, roedd Clwb Dyffryn Ogwen wedi llwyddo i serennu unwaith eto a pob aelod yn neud ei rhan.

Llongyfarchiadau i bawb a gystadlodd yn y rali, cipiodd y clwb sawl tarian gan gynnwys Tarian Heulwen Haf Jones am gelf a chrefft, Tarian Huw Rowlands am ganu, Tancard Bob Parry i Beca Jackson am y cneifiwr gorau, Tarian Bodychain Isaf am y tîm buddugol y rali am farnu gwartheg ac enillwyd hambwrdd arian y cyn-aelodau am y clwb buddugol yn yr adran hyn.

Mae'r diolch fwyaf i Will a'i deulu, Fferm Cochwillan am adael i ni gynnal y rali a'r ddawns nos ar eu fferm ac am eu croeso cynnes. Diolch yn fawr i'r criw wnaeth paratoi'r caffi a gweithio'n galed drwy'r dydd a'r nos, gan ofalu bod pawb yn cael eu bwydo. Diolch i'r stiwardiaid, beirniaid a phawb a wirfoddolodd ar y diwrnod.

Diolch yn bennaf i holl aelodau'r clwb am eu hymroddiad drwy'r flwyddyn, arweinyddion, pwyllgor y sir a ffrindiau a chyfeillion diflino, er mwyn cynnal rali lwyddiannus.

Ymlaen i'r flwyddyn nesaf ar ôl Medi, gan obeithio am flwyddyn lewyrchus arall a phob lwc i Glwb Ffermwyr Ifanc Llangybi am drefnu rali 2027.


**MODURDY FFRYDLAS**

Profion M.O.T.

**PERCHNOGION**

A.LL. ac R.W. WILLIAMS

**Stryd Fawr, Bethesda**

PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723

E-bost: ffrydlas@btconnect.com

ANGLADDAU enfys FUNERALS

GREEN



Trefnwyr angladdau annibynnol yn cefnogi teuluoedd ar draws Gogledd Cymru i greu angladdau traddodiadol, gwyrdd, unigryw a phwrpasol.

Swyddfeydd ym Mangor a Bethesda.

Gwasanaeth amlosgiad uniongyrchol ar gael gydag arch, amlosgiad lleol, dychwelyd llwch a ffioedd proffesiynol wedi'u cynnwys £1,375

133 Stryd Fawr, Bangor • 57 Stryd Fawr, Bethesda
01248 351631 post@enfysfunerals.co.uk

**ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED**

**A.G.L.**
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909

***Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?***

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Colled enfawr**

Llifodd ton o dristwch dros y Dyffryn wrth inni glywed bod Myfanwy Jones, 67 Bro Emrys, wedi'n gadael. Bu farw 'n dawel yn Uned Gofal Ddwys Ysbyty Gwynedd, yng nghwmni ei theulu agosaf, ar ddydd Sul Mai 3ydd. Dim ond pedwar diwrnod yn gynt gafodd ei tharo'n wael. Roedd pobl Talybont, a thu draw, bron â methu credu iddi gael ei chipio o'n plith mor ddisymwth.

Roedd Myf yn barod ei chymwynas bob amser. Doedd dim byd byth yn ormod o drafferth iddi, a gwasanaethodd ei chymdogaeth yn ffyddlon, mewn sawl ffordd, hyd y blynyddoedd.

Ei theulu oedd popeth iddi. Yma, yn Nhalybont, magodd John a hithau eu dau fab, Paul a Mark. Ymhen amser, wedi i Paul a Lisa, ei wraig, ddod i fyw o fewn tafliad carreg iddynt, bu Myf yn helpu i fagu Jamie, Lauren, Mitchel a Masey. Roedd hi mor falch ohonynt i gyd.

Yn ei henaint, symudodd mam John atynt i fyw'n barhaol, a gofalodd Myfanwy yn dyner amdani hyd y diwedd un. Bywyd o wasanaeth hapus gafodd Myf, ond fe'i gwtogwyd lawer iawn yn rhy fuan.

Tystiodd y dyrfa, a ddaeth i Eglwys S. Cross i ffarwelio â hi, i boblogrwydd Myfanwy a hoffter pobl y fro ohoni. Ar ddiwedd y Gwasanaeth, cafodd ei rhoi i orffwys efo'i hannwyl briod, John, ym Mynwent Bangor. Coffa da am un oedd yn ffrind annwyl i bawb a'i hadnabu.

**Y ddiweddar Iola Williams.**

Daeth nifer fechan o deulu a ffrindiau Iola ynghyd ar bnawn Mercher, Mai 27ain. i wasgaru ei llwch yng Ngardd Goffa Amlosgfa Bangor, ac i rannu atgofion.
Cafwyd ymddiheuriadau gan rai ffrindiau oedd yn methu â bod yn bresennol.

**Brysiwch wella!**

Dymunwn yn dda i Jean Hughes, 5 Bro Emrys, a dreuliodd ychydig o ddyddiau yn yr ysbyty ar ddechrau'r mis; i Keith Jones, 13 Dolhelyg sy'n dal i gael helynt efo'i droed ac yn gorfod ymweld o dro i dro ag Ysbyty Glan Clwyd; ac i bawb o'r pentref sydd o dan y don ar hyn o bryd. Hiraethwn am y tywydd cynnes, i fentro allan i'r haul. Bydd pawb yn teimlo'n well wedyn.

**Cartref newydd**

Croeso cynnes i rif 1 Bro Emrys, i Liam Revilles a'i ferch, Evie. Un o hogiau Maesgeirchen ydi Liam, ond bu'n byw am nifer o flynyddoedd ym Methesda. Bydd yn siwr o gyfarfod ffrindiau o'r ddau le yn Nhalybont.

Mae Angel a Stella, cwpl ifanc a hyfryd, yn wreiddiol o Fwlgaria, wedi dod i fyw i 26 Cae Gwigin.

Tŷ 'Taid John' (Redfern) yw rhif 26 i rai o 'blant' y pentref. Deintyddion wrth eu galwedigaeth ydi 'r newydd-ddyfodiaid. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn ein plith. Maent eisoes wedi gwneud ffrindiau efo Louie a Judy dros y ffordd iddyt.

**Ymwelwyr o'r Alban**

Braf oedd cael cip ar Lyn a Graham Davies yng Nghae Gwigin ar ddechrau mis Mai.

Ar y ffordd i dŷ Mrs Hewitt, un o ffrindiau pennaf Alice, mam Graham, oeddan nhw.

Mae Alice, coffa da amdani, wedi'n gadael erstalwm, ond bydd Mrs Hewitt yn dathlu ei phen-blwydd yn 99 oed ym mis Awst.

**Diwrnod agored**

Cynhaliwyd diwrnod agored ym Melin Cochwillan ar ddydd Sul, Mai 10ed. Roedd yr haul yn tywynnu'n braf, a'r hen Felin ar ei gorau. Mae'r perchennog presennol, Howard Hutchinson, gyda chymorth parod teulu a ffrindiau , wedi gwneud gwaith anhygoel ar gynnal a chadw'r hen beiriannau, ac ymchwilio i hanes y Felin Ddŵr hynafol.

Mae Howard yn llawn canmoliaeth o waith ei ewythr, Vernon Barker, a ddechreuodd y fenter pan ddaeth yn ôl i Gymru o Swydd Efrog.

Oherwydd ei lleoliad, ni fu'n bosibl agor Melin Cochwillan i'r cyhoedd fel y dymunai'r teulu ond, o bryd i'w gilydd, byddant yn hysbysebu Diwrnod Agored. Tybed faint o drigolion Talybont sydd wedi manteisio ar y cyfle? Cofiwch fynd i lawr yno'r tro nesaf bydd ar agor; gallaf eich sicrhau na chewch chi mo'ch siomi, a cewch groeso cynnes iawn gan Cora a Howard.

**Rali Clybiau Ffermwyr Ifainc Eryri**

Daeth y Rali i Dalybont eleni; i Fferm Cochwillan, cartref y ffermwr rhadlon William Roberts, neu Wil 'Chwillan i bawb yn y Dyffryn. Bydd Swyddogion Clwb Dyffryn Ogwen yn anfon adroddiad a lluniau i'r 'Llais', felly digon yw dweud mai pleser pur oedd bod yn dyst i'r gwaith gwych mae'r clybiau yn 'gyflawni, a chlywed y Gymraeg mor fyw ar wefusau'r bobl ifainc wrth iddynt fwynhau myrdd o weithgareddau.

Nid ar chwarae bach mae trefnu Rali Sirol. Llongyfarchiadau enfawr i bawb a fu wrthi'n paratoi mor ddygn a thrylwyr am wythnosau o flaen llaw; a diolch ichi i gyd am ddod â llwyth o hwyl i gaeau Cochwillan.



**Pob lwc!**

Mae Teddy Lloyd, 12 Dolhelyg, newydd arwyddo i Garfan dan 9 oed Clwb Pêl droed Wrecsam.

Fel y gwelwch yn y llun, mae o wrth ei fodd. Mae o'n ymarfer yn galed ac yn mwynhau pob gornest, er bod hynny weithiau'n golygu teithio'n bell iawn oddi cartref.

Teddy, dymunwn bob llwyddiant iti wrth iti ddringo o ris i ris yn dy gamp ddewisedig.

**Wythnos Cymorth Cristnogol**

Diolch i bawb a fu mor garedig â rhoi eu cyfraniadau drwy ddrws 1 Dolhelyg. Ers dyddiau Covid, 'dydi'r casglwyr ddim yn cael mynd o dŷ i dŷ fel cynt. Diolch i Catrin Hobson am rannu amlenni yn Lôn Ddŵr a'r Hen Bentref, ac i Anna am fy helpu efo'r gweddill.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Meh. 21: Oedfa i'w threfnu.
Meh. 28: Parchg. John Pritchard
Gorff. 5: Parchg. Olaf Davies.
Gorff. 12: Parchg. Ddr. Elwyn Richards.
Gorff. 19: Ms. Eleri Lloyd Jones.
Gorff. 26: Parchg. Dafydd Job


*Croeso cynnes i bawb.*

**L. STURRS A'I FEIBION**
SEFYDLWYD YN 1965
**ADEILADWYR**
HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

**DAFYDD CADWALADR**
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

# Cyfres Tafarnau Dyffryn Ogwen – 3

**“Mi awn ni i chwilio am dafarna’ cynhara’ Dyffryn Ogwan!”**


Carnarvonshire
Anglesey
to wit.
BE IT REMEMBERED, That on the 20th Day of Septr in the Fiftieth Year of the Reign of our Sovereign Lord George the Third, of the United Kingdom of Great Britain and Ireland, King, defender of the Faith, and in the Year of our Lord 1810 the Persons whose Names are hereunder written personally came before us, two of his Majesty's Justices of the Peace for the said County, and entered into recognizance to our Sovereign Lord the King as follows.

Henry Parry of Gelli in the parish of Landegai Victualler — in £. 10
Edward Williams of Capel Curig in the said Parish Victualler — in £. 5
and William Williams of Bangor Victualler — in £. 5

of good and lawful Money of the United Kingdom of Great Britain and Ireland current in Great Britain, to be had and levied upon their several and respective Goods and Chattels, Lands and Tenements, to the use of our said Lord the King, his Heirs and Successors, if default shall be made in the Condition under-written.

THE CONDITION OF THIS RECOGNIZANCE IS SUCH, That if the above bounden Henry Parry this Day authorized and empowered to obtain a Licence to keep a common Inn, Ale house, or Victualling house from the day of the Date hereof until and upon the tenth day of October 1811 in the house where he now dwelleth; Do and shall use, maintain, keep, and preserve good Rules, Orders, and good Government in his said House; and shall suffer no unlawful Games, Disorders, or Irregularities to be done or committed therein, during the Term and Continuance of such Licence. Then this Recognizance to be void and of none effect, or else to remain in full force.

Taken and acknowledged the Day and Year above written, before us

John Owen
Robt. Evans

XQA K1/1/251

Dogfen *Alehousekeeper Recognizances 1801* drwy ganiatâd Archifau Gwynedd.

Sefydliad answyddogol, achlysurol ei agoriad, a di-reol risait ei ddiferion meddwol, oedd Tafarn Gelyn yn Llanllechid. Un o’i chyffelyb fath, bur debyg, a fyddai yn ddiweddarach yn awyddus i gefnu ar yr hen ddulliau cyntefig ac ail-ddarganfod ei hun yn dafarn gyhoeddus, sefydlog ei horiau, yn gwasanaethu dan amodau deddfwriaeth yr *Alehousekeeper’s Recognizances* i ofynion pleser a difyrrwch y gymuned. I ennill tystysgrif trwyddedwr yr oedd yn ofynnol i’r ymgeisydd ymddangos ger bron dau Ustus Heddwch yn y Llys Chwarter i dyngu ei barodrwydd i gadw at amodau deddfau trwyddedu’r wlad.

Yr anghenraid cyntaf oedd talu gwarant ariannol, £10 yn 1800, a £30 erbyn 1824, ac yna addo i gadw at restr hirfaith o amodau – bod y dafarn i gadw at ofynion, rheolau a gorchmynion llywodraeth dda; y byddai’n gwarantu safon y bwyd a’r ddiod oedd i’w gweinyddu; na fyddai’r ddiod wedi ei theneuo drwy dwyll; y byddai’r llestri yfed o faint cyson; nad oedd meddwdod i’w ganiatáu yn y tŷ; fod hap chwarae ar gardiau, drafts, deis a bagatél i’w wahardd; na chaniateid i ymryson pryfocio ddigwydd ar darw, arth neu bry llwyd; nid oedd ymladd ceiliogod i’w ganiatáu; ni oddefid dynion a merched o ‘*notoriously bad fame*’ fynychu’r dafarn; bod gwaharddiad i’r dafarn agor a chaniatáu yfed yn ystod oriau offeren y Sul.

Dyna yn fras ofynion deddf trwyddedu’r wlad, ond pwy oedd i gadw golwg ar y gofynion hyn sydd yn gwestiwn nad oedd iddo ateb hawdd. Yn chwarter olaf y 18g yr oedd Dyffryn Ogwen yn graddol agor i ddylanwadau newydd a phellgyrhaeddol. Yr oedd Richard Pennant yn y broses o drefnu ei chwarel ar gomin Cae Braich y Cafn ac yr oedd ganddo gynlluniau ar droed i gynllunio ffordd newydd, Ffordd y Lord, o Aber Cegin i Gapel Curig. Y ffordd dyrpeg o Lanrwst drwy Gonwy oedd y prif gyswllt gyda’r byd mawr allanol, ond erbyn 1807 yr oedd ffordd dyrpeg gyflymach wedi ei chynllunio i gario’r post o Lundain i Gaergybi drwy Nant Ffrancon i groesfan afon Menai. Canlyniad yr holl weithgaredd oedd bod teithwyr a gweithwyr o gymunedau pell ac agos yn graddol ymsefydlu yn yr ardal gan greu marchnad newydd i ddiwallu eu hanghenion. Rhwng 1800 ac 1825 ymddengys i nifer fawr o geisiadau ddod gerbron yr Ustusiaid Heddwch i agor tafarnau ar hyd ac ar led Dyffryn Ogwen, ym mhlwyf Llanllechid fel ym mhlwyf Llandygái.

Ceisiadau Richard Evans yn Nhy’n y Maes a Henry Parry yn y Gelli ger Tregarth sy’n dal sylw gyntaf yn 1804, y cyntaf oherwydd ei fod yn rhagflaenu agor y ffordd dyrpeg drwy Nant Ffrancon, a’r ail oherwydd ei leoliad anghysbell o ddatblygiadau’r dydd. ‘Roedd agor tafarn ar y ffordd dyrpeg newydd yn amlwg yn gam llwyddiannus, i Edward Jones yn Nhy’n y Maes ac i Morris Williams yn Nhy’n Clwt ger Hendyrpeg, ac i’r tafarnwyr hyn yr oedd hefyd o fantais fod ganddynt fferm i gynnal eu menter. Lleoliad annisgwyl i sefydlu tafarn oedd Tai

Teilwriaid hyd nes sylwi y byddai tafarn John Williams ar lwybr Ffordd y Lord o Landygái i Dregarth, er mai byrhoedlog fu ei bodolaeth wrth i rwydwaith o ffyrdd newydd ddisodli’r llwybr cynharach. Safle arall o gryn fantais fyddai agor tafarn gerllaw eglwys y plwyf fel y digwyddodd yn Llanllechid yn 1810 pan sefydlodd Robert Pritchard a William Williams eu tafarnau ‘*in the village of Llanllechid*’. Yn 1824 yr oedd Robert Williams yn cofrestru’r *Quarry Arms* yn Llandygái, ac efallai mai hwn fyddai’r mwyaf diddorol o holl dafarnau cynnar yr ardal pe gellid cadarnhau ei leoliad yn y pentref model, di-dafarn, a gynlluniwyd yn ddiweddarach gerllaw’r Castell. Tafarnau yn manteisio ar y ffordd dyrpeg o Gonwy i Fangor oedd i’w canfod yn Nhalybont lle y sefydlodd John Williams ei dafarn yn 1810, i’w ddilyn gan Owen Ellis gyda thafarn arall yn 1824, ac i’r dwyrain o Dalybont ceid tafarn yr *Hand* yn Aber. Ond tybed sut dafarn oedd yn y Bronnydd yn Llanllechid y nodir ei sefydlu gan Owen Williams yn 1824? Pam dewis safle mor ddiarffordd ac anghysbell oni bai ei fod, fel ei gymar yn y Gelli, yn ddisgynnydd agos o’r ‘*shebeen*’ oedd gynt i’w chanfod lai na milltir i ffwrdd yn y Dafarn Gelyn?

**John Llywelyn Williams**
**Idris Lewis**
**Richard Hughes**


JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR

**YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE**
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)

MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

**01248 600619**
**moduronpandy@yahoo.com**
**www.moduronpandymotors.co.uk**

**Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY**

# YSGOL TREGARTH





**Llangrannog**
Aeth disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ar drip cofiadwy i Wersyll yr Urdd Llangrannog yn ddiweddar, gan gael cyfle i fwynhau ystod eang o weithgareddau cyffrous. Bu'r plant yn rhoi cynnig ar weithgareddau fel marchogaeth ceffylau, sgio, y zipline, saethyddiaeth a'r cwrs rhaffau uchel. Yn ogystal â'r gweithgareddau anturus, roedd hi'n braf cael mynd am dro ar hyd arfordir hardd Llangrannog a mwynhau hufen iâ ar y traeth. Rhaid canmol y plant am eu hymddygiad arbennig drwy gydol y daith – roedd pawb yn fodlon mentro, yn gwrtais ac wedi mwynhau pob eiliad o'r profiad.



**Animal Encounters**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ymweliad arbennig gan Animal Encounters yn ddiweddar fel sbardun i'w thema, 'Ein Byd: Deall, Darganfod a Chreu'. Hoffem ddiolch yn fawr iddynt am gyflwyno sesiwn ddiddorol ac addysgiadol i'r plant. Roedd hi'n hyfryd gweld y plant yn rhannu'r wybodaeth yr oeddent wedi ei ddysgu yn ddiweddar mewn tasgau ardaloedd am anifeiliaid, eu cynefinoedd a'u haddasiadau corfforol, yn ogystal â gofyn amrywiaeth o gwestiynau er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth ymhellach. Cafodd y plant hefyd gyfle gwych i afael mewn amryw o greaduriaid, gan gynnwys crwban a neidr, profiad cofiadwy i bawb.



## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn**
Gobeithio i chi gyd fwynhau'r Eisteddfod ar Faes Mona, os y cawsoch y fraint o fod yno neu'r fraint o eistedd o flaen teledu a gweld yr holl fwrlwm a thalent gwych a drefnwyd ar ein cyfer.

Byddwn yn cofio'n hir am y tywydd heulog heb sôn am y storm enfawr o fellt a tharanau ddigwyddodd yn ystod un o'r nosweithiau. Roeddwn yn pitio y carafanwyr ar y maes a'r gwersyllwyr druan dan ganfas. Oedd, roedd yn Eisteddfod nad anghofiwn yn fuan.

Diolch am yr holl dalent a llongyfarchiadau i blant a ieuenctid Dyffryn Ogwen am ein cynrychioli mor wych, pob un wan jac ohonoch.

Cafwyd llwyddiant yma yn Nhregarth a llongyfarchiadau lu i'r brawd a chwaer o Lôn y Wern fu'n cystadlu yn y cystadlaethau offerynnol.

Llwyddodd Esther Lligwy Parry i dderbyn yr ail wobr yn yr unawd llinynnol dan 19 mlwydd oed gyda'r soddgrwth. Unawd gitâr Blwyddyn 7, 8 a 9 oedd cystadleuaeth ei brawd Judah Llŷr Parry a llwyddodd i ennill y drydedd wobr. Llongyfarchiadau enfawr gan bawb o'r ardal. Dwi'n sicr fod eu rhieni Hywel a Jane Marie Parry, Bryn Gwynt, wrth eu boddau gyda'r canlyniadau.



**Fferm y Foel**
Cafodd dosbarth Elidir Fawr ddiwrnod i'w gofio yn ddiweddar ar eu hymweliad â Fferm y Foel fel rhan o'u thema. Roedd pawb wedi mwynhau cyfarfod yr holl anifeiliaid a dysgu mwy amdanynt. Roedd y daith ar y tractor i gyfarfod y ceffylau yn hwyl heb sôn am yr hwyl yn cael ein tynnu yn y trelar tu ôl i'r beic cwad. Cafodd pawb gyfle i fynd i chwarae am ychydig cyn cychwyn yn nol i'r ysgol. Diolch i bawb am fod yn blant mor dda yn ystod y trip.



**Glan-llyn**
Cafodd blwyddyn 4 ddeuddydd llawn dop ac arbennig iawn yng Nglan-Llyn yn ddiweddar. Roedd pawb wedi mwynhau cael dringo ar y wal, mynd o amgylch y cwrs rhaffau ac wrth gwrs cael mentro ar y llyn! Braf oedd gweld pawb yn cyd-weithio i adeiladu rafft a lwyddodd i arnofio cyn mwynhau canŵio ar y llyn. Roedd yn bleser cael bod gyda'r criw ac roedd eu hymddygiad yn arbennig.

Diolch i bawb o'r staff, yn bennaeth, athrawon a chymorthyddion, a fu gyda'r plant yng ngwersylloedd Glan-Llyn a Llangrannog yn ddiweddar. Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn eich bod wedi rhoi eich amser i fod gyda'r plant a gwneud yn siŵr eu bod yn derbyn profiadau bythgofiadwy.

**PhD**

Llongyfarchiadau i Jonathan Griffiths, ŵyr Mrs Anne Griffiths (Twigge) o 9 Bro Derfel, ar ennill PhD mewn Gwyddor Gwleidyddiaeth o Brifysgol Pennsylvania.

Mae'r cyflawniad hwn yn adeiladu ar record academaidd gref, gan gynnwys graddio o Ysgol Uwchradd Cary, gradd Baglor mewn Gwyddor Gwleidyddiaeth o Brifysgol George Washington yn Washington, DC, a gradd Meistr mewn Gwyddor Gwleidyddiaeth o Brifysgol Chicago.

Mae Jonathan yn dechrau ei rôl newydd ym mis Awst fel Professor ym Mhrifysgol Nevada, Reno.

**Penblwydd**

Penblwydd hapus i Maldwyn Morris, Cae Garnedd, Bangor, gynt o Maes Ogwen, oedd yn dathlu ei 80 ddechrau mis Mai. Cariad mawr gan Rhian, Ian ac Eric.

**Merched y Wawr Tregarth**

Nos Lun, Mai'r 11eg cawsom sesiwn Ioga Cadair yng nghwmni'r actor Morfudd Hughes. Yn ogystal ai gwaith fel actor mae Morfudd yn cynnal amryw o sesiynau ioga wythnosol gan gynnwys dosbarthiadau yng Nghanolfan Brailsford, Bangor.

Roedd yn bleser gwrando ar ei hiaith goeth, tra roedd yn ein hannog i ymestyn ein cyhyrau, ymarfer cydbwyso a gwella ein hosgo.

Cawsom gynghorion buddiol am ymarferion syml y gallem eu hymgorffori yn ein bywyd dydd i ddydd – fydd o gymorth mawr i ni wrth geisio gwrthsefyll y busnes heneiddio ma!

Nos Lun Mai'r 1af byddwn yn croesawu'r Prifardd Ieuan Wyn i Festri Capel Shiloh i sôn am hanes y dywysoges Gwenllian.

Byddwn yn gorffen y tymor hefo trip i'r Amgueddfa Forwrol yn Nefyn ar Fehefin y 6ed




**Taith feicio o Land's End i John O'Groats**

Mae Marc Hughes, mab Beryl a Roy Hughes, Meini Glas, Talgae, Tregarth, wedi llwyddo i feicio'r holl ffordd o Land's End i bellafoedd John O'Groats yn yr Alban yn ystod Mis Mai. Roedd Martin Jones o Bermuda (gynt o Waen Wen) a Dave Blackmore o Langaffo, Ynys Môn hefyd ar y daith gyda Marc.

Roedd yn daith o 1024 milltir i godi arian i ddwy elusen Cancr arbennig iawn sef, 'Young Lives vs Cancer' a 'Teenage Cancer Trust'.

Llongyfarchiadau i Marc, Martin a Dave am godi y swm o £39,763 (gan gynnwys Gift Aid) ac maent am ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Taith enfawr a swm anhygoel. Diolch hogia!

## Capel Shiloh Newydd

Diolch i bawb ddaeth i wasanaethu yn yr oedfaon yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'r oedfaon am 5 o'r gloch bob Sul, oni nodir yn wahanol. Dyma pwy fydd yn pregethu yn ystod diwedd Mehefin a dechrau Mis Gorffennaf. Ni fydd oedfaon ym Mis Awst.

Mehefin 21 – Dr Ian Morris
Mehefin 28 – Aled Job, Llangefni
Gorffennaf 5 – I'w drefnu
Gorffennaf 12 – Arwel Williams, Caernarfon
Gorffennaf 19 – Eric Jones, Bangor
Gorffennaf 26 – Megan Williams, Porthaethwy

Mae un o'n haelodau yn parhau i fod yn Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan, sef Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm , ac anfonwn ein cofion cynhesaf ati ac yn ei methu'n fawr yn yr oedfaon.

**Drws Agored**

Mae'n brysur yn Shiloh bob bore Gwener pan fo Drws Agored o 10 tan 12 o'r gloch. Bydd rhai'n galw am baned tra'n beicio ar y Lôn Las, ac eraill yn ymwelwyr sydd yn yr ardal ar wyliau o bell ac agos. Bore Gwener, Mai 28 ymwelodd mwy nag arfer i gael sgwrs, gweld y capel a mwynhau paned yn ein plith.

Daeth dau ymwelydd o Loegr oedd ar wyliau yn Pant Têg i mewn ac wedi dotio at y capel a Wyn yn rhoi datganiad ar yr organ , a braf oedd croesawu Alan o Dregarth yn ôl atom ar fore Gwener.

Cawsom ymweliad gan y Parchedig Richard Andrew, Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd a'r is-lywydd a'i deulu Mr Matthew Forsyth. Croesawodd y Dr Ian Morris y Parchedig Andrew Charlesworth a'r Parchedig Jennie Hurd, y ddau wedi cydweithio fel Cadeirydd Synod Cymru.

Bydd Y Parch Jennie Hurd yn ymddeol eleni a diolchwyd iddi am ei gwaith a'r modd y dysgodd y Gymraeg yn rhugl. Bore prysur ond arbennig o hapus a phawb wedi mwynhau croesawu yr ymwelwr i Shiloh.

Cawsant ddiwrnod yn Eisteddfod yr Urdd ar Ynys Môn Dydd Iau gan weld y gwaith Cristnogol wneir yma yng Nghymru ym Mhabell Cytûn a chyfle i gyfarfod Esgob Cymru, Sef Y Parchedig Cherry Vann.

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

# Côr y Penrhyn
## gydag Alun Davies ac aelodau o'r côr

# Y côr ar y teledu

Tybed a gawsoch gyfle i wylio' rhaglen teledu "Our Welsh Chapel Dream" nos Fawrth 28 Ebrill, a gweld Côr y Penrhyn yn perfformio ym mharti penblwydd 60 Keith Brymer Jones, sydd hefyd yn gyflwynydd ar The Great Pottery Throwdown.

Fe gysylltodd y cwmni teledu gyda'r côr yn mis Ebrill 2025 i ofyn a fyddai diddordeb mewn gwneud perfformiad yn y parti.

Roedd y côr yn awyddus iawn i gymryd rhan ac fe drefnwyd i ddau "seren", sef Keith Brymer Jones a Marj Hogarth ddod i'n ymarfer yn Neuadd Ogwen ac mae golygfa o'r ymarfer hwnnw yn ymddangos yn y rhaglen, lle mae'r côr yn canu Pererin Wyf ac yn ymarfer cân o'r enw Once in a Lifetime gan Talking Heads gyda'r ddau.

Ar noson y parti, Mai 31 2025, 'roedd nifer fawr o westeion yn festri'r hen gapel Salem, Pwllheli, a phawb wedi mwynhau perfformiad y côr o "Yma o Hyd", ac wedyn y perfformiad gyda Keith a Marj. Fe gyflwynodd y côr gloc llechen i Keith ar ei ben-blwydd.

Prosiect nesaf y côr, medd rhai, fydd i gynhyrchu potiau seramig yn defnyddio techneg"Rak", tra yn canu Meibion y Fflam, i'w gwerthu mewn cyngherddau, mwy o fanylion i ddilyn !!!

### Noson Cawl a Chân



Yn ddiweddar, cynhaliodd Côr y Penrhyn Bethesda noson lwyddiannus Cawl a Chân yn Y Felinheli, gan ddod â'r gymuned ynghyd i fwynhau bwyd, canu, a chwmni da. Roedd y noson yn gyfle i ddathlu traddodiad Cymreig mewn awyrgylch gynnes a chyfeillgar, gyda'r côr yn perfformio detholiad o ganeuon oedd yn adlewyrchu ei dreftadaeth gerddorol gyfoethog.

Yn ogystal â bod yn noson gymdeithasol lwyddiannus, roedd y digwyddiad hefyd yn gyfle i annog aelodau newydd i ymuno â'r côr. Fel un o'r corau hynaf yng Nghymru, mae'r Penrhyn yn parhau i edrych tua'r dyfodol drwy groesawu lleisiau newydd a chryfhau ei chysylltiadau cymunedol ar draws yr ardal.

Hoffai'r côr ddiolch yn arbennig i Islwyn Owen ac i bawb arall fu'n gyfrifol am drefnu noson lwyddiannus yn y Vic. Roedd y gefnogaeth a'r gwaith trefnu yn allweddol i lwyddiant y noson ac yn enghraifft wych o ysbryd cymunedol yr ardal**.**

Diolch arbennig i Arwel Davies am ei arweiniad cerddorol trwy gydol y noson, ac yn enwedig i Alun Davies, a berfformiodd yn arwrol wrth gyfeilio i'r côr ar y gitâr drwy gydol y noswaith. Roedd eu hymroddiad a'u cyfraniad yn allweddol i lwyddiant a hwyl y digwyddiad.



### Ymgyrch aelodau newydd

Ar hyn o bryd mae gan y côr 71 o aelodau, sydd yn cynnwys y niferoedd yma ym mhob llais: Tenor 1 – 19 Tenor 2 – 19 Bas 1 – 18 Bas 2 – 15

Mae hyn yn sefyllfa galonogol iawn gan gofio bod amryw o gorau meibion yng Nghymru yn cael trafferth denu aelodau.



Mewn ymdrech i gadw'r niferoedd yn uchel, mae aelodau Côr y Penrhyn yn ceisio annog ffrindiau i ymaelodi, ond hefyd yn mynd allan, fel côr, i'r gymuned i geisio codi ymwybyddiaeth a rhoi cyfle i'r rhai sydd erioed wedi cael y profiad o ganu mewn côr i wneud hynny mewn awyrgylch anffurfiol.

Bydd y côr yn ymweld â clybiau a tai tafarnau yn ystod y flwyddyn. Ar gychwyn mis Mai bu'r aelodau yn Y Fic, Felinheli, ac yn Ty'n y Coed, Capel Curig ar ddiwedd y mis. Ac mae cynlluniau ar y gweill i ymweld ac ardaloedd eraill yn y misoedd nesaf.

### Croeso i Jezz

Croeso i Jezz Shea o Gerlan i'r côr. Tynnwyd y llun cyn ei berfformiad cyntaf yn Henllys Hall. Ar y chwith mae Wyn Roberts ysgrifenydd, Jezz yn y canol, gyda Wil Parry y cadeirydd ar y dde.





### Streic Fawr Friction Dynamics Caernarfon 2001

Mae Alun Davies wedi bod yn actio ar gais S4C sydd yn cynhyrchu rhaglen " Y Streic Fawr. Mae chwarter canrif ers dechrau y streic yn 2001. Mae cwmni yn cynhyrchu ffilm ar hanes y streic hirfaith, a fu ar safle hen ffatri Ferodo yn Nghaernarfon.

Y streicwyr a fu'n fuddugol yn y diwedd gan gael buddugoliaeth lawn yn yr Uchel Lys yn Lerpwl .

Maer tref Caernarfon yw cymeriad Alun yn y ffilm. Cafodd nifer fychan eraill o aelodau y côr y fraint o actio, fel rhan o dorf gorymdeithiol, gan gynnwys Wil Williams a Gareth Jones.

# Natur o'n Cwmpas

## Y Twrch Daear
### – creadur dirgel y tywyllwch



Un o'n mamaliaid mwyaf cyffredin yw'r twrch daear, ond sawl un ohonom sydd wedi ei weld yn y byw? Yr hyn a welwn yw'r twmpathau o bridd sy'n cael eu creu wrth iddo dwnelu dan ddaear. Yr enwau ar yr anifail rhyfedd hwn yn y gorllewin a'r de yw 'gwadd','gwahadden' a 'gwadden', ac fel hyn y cafodd ei ddisgrifio mewn englyn gan y bardd John Jenkins (Cerngoch) o Geredigion:

Yn oesi mae'r wadd yn isel, – a diwyd
Mewn daear yn ddirgel;
Byw o'i gwaith, 'does neb a'i gwêl
Tanom yn agor twnnel.

Mae iddo'i nodweddion neilltuol – stwcyn bach, tew o gorff, efo ffwr tywyll, melfedaidd; trwyn pinc, hirfain; llygaid bychain; coesau blaen byrion cyhyrog a thraed cryfion ar ffurf pawennau crafangog.

Creu rhwydwaith o dwneli yw ei orchwyl parhaus, a medr ei rwydwaith ymestyn hyd at hanner erw (0.2 hectar). Ei gamp eithriadol yw tyllu, gan ddefnyddio'i bawennau blaen fel rhawiau. Mae'n medru tyllu drwy 20 metr o bridd mewn diwrnod, gan wthio'r pridd i'r wyneb bob hyn a hyn, yn dwmpathau amlwg. Yn naturiol, mae'r tueddu i osgoi coedwigoedd oherwydd y byddai'r gwreiddiau'r rhwystr iddo.

Ei fwyd yw pryfed genwair, chwilod a chynrhon, ac mae'n defnyddio dau synnwyr i'w canfod – teimlo ac arogleuo. Yn gynhaliaeth wrth gefn, mae o'n storio pryfed genwair byw mewn siambrau yn ei dwneli. Weithiau daw allan o'i dwnnel i wyneb y ddaear i chwilio am rywbeth amgenach i'r fwyta ond oherwydd ffurf ei goesau caiff drafferth i gerdded ac mae'n symud fel pe bai'n nofio.

Nid yw'n gyffredin yng ngwaenydd y mynydd-dir gan fod pryfed genwair yn brin yno, yn enwedig mewn mawn asidig, a thybir mai tua 540m (1,700tr) yw ei derfyn. Fodd bynnag, cafwyd eithriadau ar dro. Yn ôl cofnodion swyddogol, canfuwyd twrch daear mewn mawnog ar uchder o 600m (2,000tr) ar y Berwyn yn 1903 (cofnod Thomas Ruddy), ac mewn mawnog cyn uched ag 870m (2,900tr) ar Aran Fawddwy yn 1913 (cofnod George Bolam).

Nid yw'n byw'n hir – dim ond tua dwy flynedd a hanner ar gyfartaledd. Ei dymor magu yw Chwefror i Fehefin, ac yn dilyn beichiogrwydd o tua mis bydd y fanw yn cael rhwng dau a saith o rai bach. Pan fydd yr epil yn 5 wythnos oed byddant yn gadael y fam i fyw'n annibynnol.

Oherwydd y dirgelwch yn y gorffennol ynghylch union natur y creadur hwn, cafwyd gan ein cyndadau y ddwy gymhariaeth ddi-sail hyn: 'mor ddwl â thwrch daear' a 'mor ddall â thwrch daear'. Mae datblygiadau yn nulliau ffilmio byd natur efo camerâu arbennig wedi datgelu bywyd y twrch daear inni. Yn sicr, nid yw'n ddwl yn ei fyd ei hun, ac nid yw'n ddall gan fod ei lygaid bychain yn hynod ddefnyddiol iddo i weld y golau pe bai ei dwnnel yn cael ei fylchu gan rywun yn tyrchu, a phan ddaw o'i dwnnel i'r wyneb i chwilio am chwilod.

Mae dal a lladd tyrchod daear yn gyfreithlon gan eu bod ar adegau yn boen i arddwyr yn arbennig drwy ddifethu lawntiau, a'r dull a gymeradwyir yw gosod trapiau sbring.

....................

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill.

Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal.

Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.


**Contractwyr Trydanol**

**Jones & Whitehead cyf**

Swyddfa Gofrestredig Penrala,
Tregarth, Bangor, Gwynedd,
LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

**TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN**

| cynghorydd. Dafydd Meurig@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. EinirWyn Williams@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. Rheinallt Puw@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. Beca Roberts@gwynedd.llyw.cymru | cynghorydd. Paul Rowlinson@gwynedd.llyw.cymru |
|---|---|---|---|---|
| 07765 400140 | 07747 690456 | 07789 742092 | 07436 927237 | 07949 034967 |
| Arllechwedd | Gerlan | Canol Bethesda | Tregarth & Mynydd Llandygai | Rachub |



**Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?**

# YSGOL ABERCASEG AC YSGOL PEN-Y-BRYN

### Syr David Attenborough yn 100

Bu plant Abercaseg yn brysur iawn yn dathlu penblwydd Syr David Attenborough drwy feddwl am wahanol ffyrdd o edrych ar ôl y byd. Roedd Mia am i bobl blannu a thyfu fwy o blanhigion, tra bod Cali eisiau i bobl roi sbwriel yn y bin. Roedd Tommy yn angerddol ei fod o eisiau i bobl beidio taflu sbwriel wrth ymyl y môr gan ei fod yn gwneud niwed i'r holl greaduriaid. Wrth sgwrsio am Syr David Attenborough dysgodd blant Blwyddyn 2 ei fod wedi ei eni'r un flwydd a chafodd y teledu ei ddyfeisio! Yn amlwg felly roedd rhaid mynd ati i edrych ar linell amser y teledu, yna wrth ddilyn trywydd y plant bu ymchwilio brwd i linell amser ffôn, y cyfrifiadur a'r iPad!



### Nofio

Braf oedd cael mynd a chriw Blwyddyn 2 i nofio am y tro cyntaf eleni. Roedd pawb wedi cael modd i fyw ar y bws. Roedd ambell un wedi cael cyfle i ddangos beth maent yn gallu ei wneud yn barod tro bod rhai wedi cael cyfle i ymarfer sgiliau nofio mewn gwersi am y tro cyntaf. Da iawn pawb am wrando, gwneud eu gorau glas yn ogystal â bod yn ddewr!

### Carnifal

Mae'r ysgol yn falch dros ben o'u plant a fu'n cefnogi ac yn cynrychioli gwahanol fentrau o fewn y gymuned ar ddiwrnod y Carnifal. Da iawn i griw'r Mejorets am berfformiad gwerth chweil a diolch i griw gymnasteg Dreigiau'r Dyffryn am gymryd rhan a chefnogi.




### Eisteddfod Gadeiriol Ysgol Penybryn

Bu'n ddiwrnod arbennig iawn yn Eisteddfod Gadeiriol Ysgol Pen-y-bryn eleni, gyda disgyblion Bl2-6 yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o gystadlaethau drwy gydol y dydd. Cafwyd cystadlaethau adrodd, dawnsio, canu, pobi yn ogystal â chelf a chrefft, gyda phawb yn dangos brwdfrydedd, creadigrwydd a balchder mawr yn eu gwaith.

Roedd safon y cystadlu yn arbennig eleni, ac roedd yn hyfryd gweld cymaint o ddisgyblion yn cymryd rhan ac yn mwynhau'r profiad. Roedd hefyd yn bleser mawr cyhoeddi bod enillwyr teilwng i gystadleuaeth y gadair unwaith eto eleni – llongyfarchiadau mawr iawn iddynt am eu gwaith rhagorol.

Hoffem longyfarch pob unigolyn a gymerodd ran yn yr Eisteddfod – am eu hymdrech a'u hymroddiad. Yn olaf, diolch yn fawr iawn i'r rhieni am eu cefnogaeth barhaus i'r ysgol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr iawn.







### Rygbi Tag-Merched Blwyddyn 5 a 6

Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn falch iawn o gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth rygbi tag Yr Urdd i ferched yn ddiweddar. Roedd yn ddiwrnod arbennig gyda'r timau'n chwarae'n wych drwy gydol y gystadleuaeth.

Dangosodd y merched sgiliau rhagorol, gwaith tîm arbennig ac ymrwymiad gwych ym mhob gêm. Roedd yn amlwg fod eu hyder a'u gallu yn datblygu'n dda iawn, ac roedd yn hyfryd gweld cymaint o addewid ymhlith y chwaraewyr.

Ar ôl cyfres o berfformiadau cryfion, llwyddodd 1 tîm i gyrraedd y rownd gynderfynol – camp arbennig!

Yn bwysicaf oll, mwynhaodd bawb y diwrnod yn fawr iawn! Llongyfarchiadau mawr i'r holl ferched am eu hymdrech a'u hagwedd wych.



### Diwedd Tymor

Mae'r flwyddyn ysgol yn prysur hedfan a 'rydym yn Ysgolion Abercaseg a Phen-y-bryn yn paratoi ar gyfer yr wythnosau olaf llawn dop! Mae llawer o ymarfer wedi bod yn barod ar gyfer y mabolgampau ac rydyn ni'n edrych ymlaen yn arw i groesawu rhieni a theuluoedd i gefnogi.

Mae 'r disgyblion yn edrych ymlaen yn arw at y diwrnod trosglwyddo a chynnal y gwasanaethau diwedd blwyddyn. Mae gennym wythnosau prysur llawn difyrrwch a hwyl o'n blaenau!

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

## Cyfar

Dyma i chi air diddorol. Mae ganddon ni bedair ffordd o'i ddefnyddio fo.

- Yn yr ystyr 'i ryw ddiben', 'i ryw bwrpas', 'er mwyn' – "Mae'r anrhegion yma ar gyfar y plant."
- Darn o dir (o 'cyfair'), sef acer neu erw – "Sawl cyfar ydy'r ffarm fwya' yn yr ardal 'ma?". Heddiw, fesul hectar mae mesur maint ffarm a hynny ers 1969 pan ddaeth y drefn fetrig i rym.
- Gorchudd (o'r Saesneg 'cover') – "Ma' isio cyfar gwely newydd arnan ni."
- Gair arall am 'cyferbyn' – "Roedd John yn arfar ista ar ein cyfar ni yn y capal ers talwm."

**sgrag**. Tamaid o fwyd ydy hwn, hynny ydy rhyw ddarn bach. Byddai plant yn dweud hyn yn aml ers talwm: "Ga' i sgrag o'r afol 'na gin ti." Byddai pobl yn eu tlodi yn gofyn am ddarn o gig gan gymydog – "'S gin ti ddim ryw sgrag i mi?" Mae 'sgrag' hefyd yn golygu darn tenau o rywbeth – 'rhyw sgrag o bren'.



**lasa**. O 'gallasai' y daw hwn – "Lasa gormod o bwysau dorri'r cortyn gwan 'na."

**ffagio.** Mae dau ystyr i hwn. Un ydy 'blino'n llwyr', 'ymlâdd'– "Dw i wedi ffagio'n lân ar ôl cerdded i fyny'r allt 'na." Ystyr arall ydy 'astudio'n galed ar gyfer arholiad' – "Fedra' i ddim dŵad hefo chdi nos 'fory achos fydd rhaid imi ffagio ar gyfar arholiad daearyddiaeth."

**wariar**. Cymeriad lliwgar ydy hwn – rhywun yn ymddwyn yn anghonfensiynol ac yn tueddu i fod yn bnderfynol a heb falio am farn pobol eraill. Mi fedr hefyd olygu llabwst afreolus – "Mae o'n dipyn o wariar!"

**wedi magu traed.** Ystyr y dywediad hwn ydy 'wedi mynd ar goll', 'wedi ei gamleoli' – "Lle goblyn aeth fy ffôn symudol i? Mae hi 'di magu traed!"

**genau pry-gwirion**. Enw arall ar genau goeg – madfall dŵr sy'n byw mrewn ffosydd a mân byllau.

**ei gwadnu hi.** Rhedeg i ffwrdd. Mae'n dywediad yn cyfeirio at y traed yn pwyso ar wadnau'r esgidiau, sef eu Blaenau, yn hytrach nag at y sodlau, a hynny er mwyn rhedeg.

**hidia befo.** Dywediad i geisio cysuro rhywun sydd wedi cael siom – "Chest ti ddim mynd i chwara golf o achos y glaw. Hidia befo, 'ngwas i, mi ddaw 'na gyfla eto."

**logia o glwydda.** Celwyddau difrifol – rhai mawr fel logiau.


**dest.** Ffordd o ynganu 'just' ydy hwn. – "Roedd hi dest â llwgu isio bwyd."

**codi pwys.** Teimlo'n sâl, efallai ar ôl bwyta rhywbeth arbennig. Dywedir weithiau am rai bwydydd eu bod yn 'pwso ar y stumog.' Gellir dweud hefyd bod arogl neu ddrewdod arbennig yn gallu codi pwys ar rywun.

**myn.** Nid y myn gafr ond y myn gyda'r 'y' yn cael ei hynganu fel 'y' ac nid 'u' Dyma'r myn a gawn yn aml o flaen geiriau fel 'dian i' a 'diawch i'.  Byddai pobl yn arfer tyngu llwon fod rhywbeth yn wir efallai mewn sefyllfa gyfreithiol. Byddent yn gwneud hynny yn enw Duw 'fy Nuw' ac mae'n debyg mai ffurf arall ar ddweud hyn oedd 'myn Duw.' Datblygodd nifer o ffurfiau llai parchus o dynnu llwon, megis 'myn uffar' a 'myn diawl' ac rhag cablu neu bechu byddai 'uffar' a 'diawl' yn troi'n 'uffach' a 'diawch.' Cawn hefyd 'myn coblyn i' a 'myn brain' a thybed glywsoch chi hon 'myn sebon i' ffefryn gan fy nhad am ryw reswm.

**Llanbidinodyn** Wyddoch chi ble mae'r lle arbennig yma? Er holi pan oeddwn yn blentyn chefais i byth wybod. Ond wrth gwrs rhyw le dychmygol ydyw ac yn ateb parod i rywun a fyddai'n holi am hynt rhywun. "Ble fuos ti heddiw ar dy drafal?" "Yn Llanbidinodyn 'chan!" Mae'n debyg bod Llanbidinodyn yn gyfarwydd iawn i lawer yn y gogledd. Yn y de Cwmsgwt yw'r ateb.

Cofiwch os am gyfrannu anfonwch at Mary Jones 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN maryeds@hotmail.co.uk 07443047642





Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*

Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01286) 672437 | Pwllheli (01758) 703000

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369
neu 07813 455653



Mark Davies
07447804110




Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

mark@mdcaravans.cymru MCEA

*Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?*

# Bethesda

**Mary Jones**
maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda (601902)

**Genedigaeth**
Croeso mawr i'r byd Nala Fflur Millband, a anwyd ar 14eg o Fai, 2026. Llongyfarchiadau mawr i Luke a Shân, Rhes Gordon, Bethesda ar enedigaeth eu merch fach.

Cariad a dymuniadau gorau gan yr holl deulu.

**Ymgartrefu**
Yn ddiweddar bu Wil Williams Maes Caradog ymddeol or fferm yn Nant Ffrancon. Mae o a'i fam bellach wedi ymgartrefu yn Rhos y Nant Bethesda.

Pob dymuniad da ir ddau yn eu cynefin newydd.
Mae Wil am ddymuno y gorau i Elis a Catrin , sydd bellach wedi cymryd yr awenau yn Maes Caradoc.

Mae siŵr fod yr ardal gyfan yn falch hefyd fod pobl leol wedi dod i warchod y fferm i'r dyfodol.

**Pont Sarnau**
Mae'r hen bont bellach wedi ei dymchwel a'r bont newydd yn ei lle.



**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Paul a Nerys Phillips, Erw Las. Bu farw tad Paul sef Robert Phillips yn 91 oed ar Fai 27ain yn dawel yn ei gartref ym Mae Trearddur, Caergybi.

Tad annwyl i David a Paul. Cymar hoff Trish. Taid cariadus Stephen, Anna, Cara a Harri a hen daid i Lili a Popi. Cynhelir yr angladd yn Eglwys Santes Ffraid ar Fehefin 24eg. Cesglir rhoddion er cof tuag at elusennau cancr y prostad a Marie Curie. Cofiwn at y teulu yn eu profedigaeth.

**Cartref Newydd**
Croeso i Gwenllian a John I'w cartref newydd yn Ffordd Ffrydlas.

**Clwb y Dyffryn**
Mae'r clwb yn cyfarfod ddwywaith y mis yng Nghanolfan Gorffwysfan, Stryd Fawr am ddau o'r gloch y prynhawn. Clwb yr henoed ydyw ac mae croeso i chi ymuno â ni am banad a sgwrs, bingo ac ambell i sgwrs gan gyfeillion.

Rydym yn cyfarfod ar yr ail a'r pedwerydd dydd Mawrth o bob mis. Erbyn i Llais Ogwan Mehefin ddod allan bydd yr aelodau wedi bod ar eu gwibdaith blynyddol. Byddwn yn ailgychwyn dydd Mawrth, Medi 8fed 2026.

**Clwb Gorffwysfan**
*Gwibdaith Wyddgrug a Brychdyn*
Aeth aelodau a chyfeillion ar ei gwibdaith cyntaf y tymor i Wyddgrug a Brychdyn. Cafwyd diwrnod sych a braf a phawb wedi mwynhau.

**Bore Coffi**
Ar Fai16eg cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus iawn gydag elw o dros £400. Diolch i'r aelodau fu'n gweithio yn y gegin, ar y byrddau gwerthu, ar y drws a gwerthu raffl.

Diolch i bawb hefyd oedd wedi cyfrannu at y byrddau gwerthu'r raffl. Diolch arbennig i Crochendy Bethesda, Clwb Rygbi Bethesda a Zip World am eu rhoddion ac i swyddogion Capel Jerusalem am y defnydd o'r festri.

Anfonwn ein cofion a gwellhad buan at ddau o swyddogion y clwb sef Rhiannon Efans, Cadeirydd ac Edric Jones, Is-gadeirydd.

**Gwibdaith nesaf**
Trefnir gwibdaith i Skipton a Howarth ddydd Mercher, Mehefin 24ain, cychwyn am 8:00 y bore. Enwau a blaendal i Helen neu Joe. Aelodau – £10 Cyfeillion – £20. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol fore Llun Gorffennaf 20fed am 11:00 y bore.

**Cyngor Bethesda**
Hoffai'r Cyngor ddiolch i'r Cynghorydd Ann Williams am ei gwaith diflino gyda Balchder Bro dros y blynyddoedd ac am ei chyfraniad gwerthfawr i'r gymuned.

Mae'r Cyngor yn diolch i'r Cynghorydd Catrin Wager am ei gwaith a'i hymroddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac yn falch o groesawu'r Cynghorydd Einir Williams fel Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2026/27.

Mae'r Cyngor hefyd wedi cyfrannu tuag at gostau gosod y basgedi crog ar hyd y Stryd Fawr ym Methesda, gan helpu i wella golwg a chroeso'r dref dros fisoedd yr haf.



**Camp yr Ultrathon**
Tra oedd llawer o drigolion y dyffryn yn mwynhau yn y carnifal roedd Bleddyn Williams yn cyflawni rhywbeth hollol wahanol, sef cymryd rhan yn râs Ultraton Eryri.

Llongyfarchiadau i Bleddyn o Gilfodan am gwblhau y ras 57.76km mewn 11awr 42munud, gan ddringo mynyddoedd ar y ffordd faith oedd yn cychwyn a gorffen yn Llanberis. Yn ystod y ras fe lwyddodd i dorri ei record cyflymder personol nifer o weithiau. Doedd y tywydd ddim ar ochr y rhedwyr a dywedodd Bleddyn y byddai "mynd i fyny'r Wyddfa ar llwybr Maenderyn yn aros efo fi am byth."
Ond gorffen oedd yr hanes ac roedd y teulu yno I'w groesawu yn Llanberis. Llongyfarchiadau mawr ar dy gamp Bleddyn.

## Dillad Ysgol Ail-law Am Ddim i Deuluoedd Dyffryn Ogwen

Bydd teuluoedd sydd â phlant oed ysgol yn gwybod ei bod hi'n adeg honno o'r flwyddyn eto! Gwasgwch eich plentyn i mewn i'w siwmper ysgol am yr ychydig wythnosau olaf o'r ysgol gan nad oes modd i chi dalu am ddillad newydd mor agos at ddiwedd y tymor. Yn y gorffennol, rydw i hyd yn oed wedi troi trowsus fy mab sy'n rhy fach yn siorts i'n cael ni drwodd i fis Gorffennaf!

Mae prynu gwisgoedd ysgol yn angenrheidrwydd drud iawn a all roi straen a baich gormodol ar gyllid teulu. Mae Partneriaeth Ogwen a Llyfrgell y Petha yma i helpu i ysgafnhau'r baich. Un waith eto eleni, byddwn yn gweithio efo Ysgolion Dyffryn Ogwen, Pen-y-bryn, Abercaseg a Llanllechid i gasglu, glanhau a sortio dillad ysgol ail-law mewn cyflwr da.

Mae Ysgolion Pen-y-bryn, Abercaseg a Llanllechid, diolch i grantiau GwyrddNi a gwaith caled gan y cynghorau ysgol, bellach efo silffoedd yn yr ysgolion lle mae dillad ysgol ail-law ar gael i deuluoedd




trwy gydol y flwyddyn. Cysylltwch efo eich ysgolion am fwy o wybodaeth.

Oes gennych chi wisgoedd ysgol sy'n bellach yn rhy fach? Gollyngwch nhw yn eich ysgol, Llyfrgell Gymunedol, neu swyddfa Partneriaeth Ogwen.

Wedyn, cadwch lygad ar gyfryngau cymdeithasol Petha a Phartneriaeth Ogwen am fanylion ein digwyddiadau dros yr haf i deuluoedd ddod i Lyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen i nôl siwmperi, crysau, trowsus a sgertiau yn rhad ac am ddim.

Hefyd, os hoffech chi gefnogi'r prosiect drwy wirfoddoli i olchi'r gwisgoedd, cysylltwch â gofod@ogwen.org

Diolch i'r Loteri Genedlaethol am gyllido'r prosiect yma.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Diwedd Cyfnod**
Mae ein ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd, wedi ymddeol ers diwedd mis Mai. Diolchwn am ei gyfraniad i fywyd eglwysig Bro Ogwen dros y blynyddoedd diwethaf, a dymunwn ymddeoliad hapus ac iach i Gareth ac Elizabeth, a dymuniadau gorau yn eu cartref newydd ym Mangor.

**Apêl**
Mae cronfa'r Apêl yn dal ymlaen, gan fod costau cynyddol yn dod i law oherwydd tywydd garw a.y.b. Diolch am unrhyw roddion, gwerthfawrogir pob un yn fawr.

Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu i'r Apêl, neu'n wythnosol i'r eglwys, rhowch wybod i Lester, ein Trysorydd, ar lbath@phonecoop.coop er mwyn cael y manylion.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf fel arfer at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael, yn gwella ar ôl llawdriniaeth, neu'n gaeth i'w cartrefi, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd. Cofiwn yn arbennig am y rhai sy'n colli dod i'r eglwys i ymuno yn y gwasanaethau a'r cyfeillgarwch.

Cofiwch roi gwybodaeth i Sara os oes rhywun yn awyddus i gael ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

**Cyngerdd Mawreddog**
Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu Côr Meibion y Penrhyn i'r eglwys nos **Wener, Mehefin 26** ar gyfer eu Cyngerdd Mawreddog, ynghyd a'r unawdydd **Caleb Rhys**. Dechreuir am 7.00, mynediad yn £10, tocynnau ar gael gan aelodau o'r eglwys ac aelodau'r Côr. Siŵr y bydd yn noson i'w chofio – dewch yn llu.

**Plas Ogwen**
Ar y Sul olaf o'r mis, mae'r Parchedig Sara yn cynnal gwasanaeth Cymun i drigolion Plas Ogwen am 2 o'r gloch y prynhawn. Mae croeso i bawb, sy'n dymuno fod yn bresennol.

**Gwasanaethau Glanogwen**
Dyma drefn gwasanaethau yn Glanogwen am y dyfodol:

**Suliau 1af a'r 3ydd yn y mis**: Cymun Bendigaid am 11am.

**Y TRI bore Mercher cyntaf ym mhob mis** am 10.30am – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn. Croeso cynnes, fel arfer, i bawb i'r holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu a'r Parchedig Sara Roberts ein offeiriad cynorthwyol ar 07967652981, neu gyda'r Archddiacon, y Parchedig David Parry, ar davidparry@churchinwales.org.uk os am drefnu bedydd neu angladd.

**Clwb Cant Glanogwen**
*Enillydd mis Chwefror*
1af – Amanda Roberts
2il – Rupert
*Enillydd mis Mawrth*
1af – Cheryl Owen
2il – Karen Williams
*Enillydd mis Ebrill*
1af – Johanna Owen
2il – Myra Ball

## Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen

**Arddangosfa Ffotograffau Andre Lomozik**
Diolch i Andre Lomozik am gael caniatad i arddangos rhai o'i ffotograffau sy'n portreadu cymeriadau ac adeiladau lleol . Bu Andre'n tynnu lluniau ers nifer o flynyddoedd bellach ac mae ei gasgliadau yn dangos cymaint mae'r ardal wedi newid o fewn tua 30 mlynedd. Ymysg ei luniau, cawn weld yr hen 'Spar', Plas

Ffrancon yn cael ei adeiladu, trigolion lleol yn cymdeithasu a hyd yn oed 'Brig y Nant' mewn fflamau! Cafodd yr arddangosfa dderbyniad gwych gan bawb sydd wedi ei gweld. Roedd nifer yn trafod eu hatgofion am destunau'r lluniau. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith mae Andre yn ei wneud – sef cofnodi digwyddiadau sydd erbyn hyn yn hanes lleol. Gobeithio y cawn weld mwy o'i waith yn y dyfodol.

**Gwesty Pryfed**
Cafwyd gweithdy diddorol ar gyfer plant oed cynradd yng ngardd y Llyfrgell yn ddiweddar, sef creu 'Gwesty Pryfetach'. Gan fod pryfetach yn bwysig iawn i'r amgylchedd, rhaid addysgu'r plant sut i'w gwarchod. Roedd cyfle i rieni'r plant hefyd gael golwg ar yr hyn sydd ar gael yng nghatalog y 'Petha'. Croeso i unrhyw un ddod draw i weld beth sydd ar gael. Diolch yn fawr i griw 'Petha' am drefnu'r digwyddiad.

**Cofiwch am y sesiynau canlynol:**
'Ji Babi Bach' – pob bore Llun 10:30-11:15. Sesiwn ganu, a stori ar gyfer babanod sydd heb gychwyn cropian (am ddim).

'Paned a Sgwrs' pob bore Iau – 10:30 – 11:30. Cyfle i ddysgwyr ymarfer sgwrsio yn y Gymraeg. (am ddim).



Mr. Jones
GLANHAWR SIMDDA
Ysgubo Traddodiadol | Ysgubo Cylchdro
CCTV | Aelod o NACS
Yswiriant Cyfredol
07951 108121
mr.joneschimneysweep@gmail.com

C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.


Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

# YSGOL BODFEURIG




**Llangrannog a Glanllyn**
Mae plant dosbarth Ogwen wedi bod yn brysur iawn yn crwydro y mis yma. I ddechrau bu blwyddyn 5 a 6 yr holl ffordd i Llangrannog! Yno cafodd pawb lawer o hwyl yn dringo, sgio, marchogaeth, mynd ar feiciau cwod yn ogystal a chrwydro a mynd am dro i'r traeth.

Yr wythnos ganlynol aeth criw blwyddyn 3 a 4 i Glanllyn ar eu hantur hwythau. Buodd pawb yn brysur yn dringo, adeiladu rafft a canwio yn ogystal a chyfarfod tylluanod o bob math!

Diolch o galon i staff yr Urdd yn Llangrannog a Glanllyn am y gofal a'r hwyl gafodd pawb.







**Celf a Chrefft yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i blant yr ysgol am eu hymdrech a'u llwyddiant yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd eto eleni. Dyma restr o'r rhestr o'r gwaith buddugol:

Fern – 2il cyfres o luniau du a gwyn blwyddyn 5 a 6
Seth – 3ydd llun lliw blwyddyn 5 a 6
Fern – 3ydd llun du a gwyn blwyddyn 5 a 6
Blwyddyn 3 a 4 – 1af argraffu grwp
Blwyddyn 5 a 6 – 2il argraffu grwp
Merywen – 2il gemwaith blwyddyn 5 a 6
Hibisca – 1af gwaith 3D blwyddyn 3 a 4
Ollie – 2il graffeg cyfrifiadurol blwyddyn 3 a 4
Nina – 3ydd argraffu blwyddyn 3 a 4
Fern – 1af graffeg cyfrifiadurol blwyddyn 5 a 6



**Gweithdy Celf**
Diolch i Bartneriaeth Ogwen am drefnu i flwyddyn 5 a 6 fynd i weithdy yng Nghanolfan Cefnfaes. Cafwyd cyfle i drafod prosiect Yr Hen Bost cyn edrych ar waith ME Thompson a cael cyfle i ddylunio poteli dwr ei hunain. Diolch yn fawr am y croeso a'r bore difyr!



**Carnifal Bethesda**
Llongyfarchiadau i Liam o ddosbarth Ogwen am gael ei goroni yn Frenin Carnifal Bethesda 2026 – rydym yn falch iawn ohono ti!

## Gair neu ddau John Pritchard

# LLUN

Ddechrau Mai, roedd y gŵr bonheddig y pen arall i'r ffôn yn dweud ei fod yn cofio i mi, rai blynyddoedd yn ôl, ddechrau fy mhregeth yn ei gapel trwy gyfeirio at lun yr oeddwn newydd ei weld mewn arddangosfa yn Galeri, Caernarfon. Doeddwn i, meddai, ddim yn sylweddoli bod yr arlunydd, Gareth Owen, yn eistedd yn y set fawr o'm blaen! Doedd gen i ddim cof am y digwyddiad, ond roedd yn gysur cael gwybod nad oeddwn wedi dweud unrhyw beth beirniadol am y llun! A chan ei bod yn stori dda, mi wnes ei defnyddio fel eglureb mewn pregeth y Sul canlynol.

Ddiwedd Mai, rhwng dwy oedfa yng ngwlad Llŷn, mi fûm yn Oriel Glyn y Weddw yn Llanbedrog, lle digwyddais daro ar y gyfrol *Rhyw LUN o Hunangofiant* gan Gareth Owen. Roedd rhaid cael golwg arni er mwyn gweld a fyddai enghreifftiau o'i waith yn f'atgoffa o'r arddangosfa. Tybed a fedrwn hyd yn oed gofio'r union lun y soniais amdano yn y bregeth? Ond o droi at y bennod sy'n trafod y cyfnod y bu'n byw yn Eglwysbach, dychmygwch fy syndod o ddarllen y stori a adroddwyd i mi dros y ffôn, gyda'r arlunydd ei hun yn ychwanegu iddo fo a'i gyd-flaenor ddweud wrthyf yn y fan a'r lle pwy oedd o.

Na, doedd gen i ddim cof o gwbl am y peth. Ac o ddarllen y gyfrol, nid syndod hynny gan fod Gareth Owen yn enwi'r pregethwr ... ac nid fi oedd hwnnw wedi'r cyfan! Ond o weld yr enw, daeth i mi atgofion melys am ŵr arbennig y deuthum i'w adnabod a mwynhau ei gyfeillgarwch a'i gefnogaeth. A phriodol ydi adrodd yr hanes hwn yn *Llais Ogwan* gan mai'r pregethwr hwnnw oedd y diweddar Barchedig John Owen, Bethesda. Diolch am gael f'atgoffa amdano a'i sirioldeb a'i ddoniau a'i egwyddorion. Ac ydi, mae'n rhwydd iawn ei ddychmygu o'n siarad yn ddeheuig am ba lun bynnag a welsai yn Galeri yr achlysur hwnnw.

Ac o sôn am Oriel Glyn y Weddw, mae gen i gof byw o'm hymweliad cyntaf â'r lle hwnnw, yn fuan wedi i mi gychwyn fy ngweinidogaeth yn Abersoch a'r cylch. Mynd yno wnes i gyda'r diweddar Penri Jones ar ran eglwys Seion, Llanbedrog, cyn i'r plasty gael ei adnewyddu a'i ail agor. A'r gwir amdani ydi mai am Penri, y cyfaill a'r diacon, yr athro a'r awdur, yn anad neb na dim, y byddaf yn meddwl bob tro'r af yno erbyn hyn.

Mor braf ydi cael ein hatgoffa am bobl dda y cawsom y fraint o'u hadnabod ac o fwynhau eu cwmni. Diolch i Dduw am bobl a fu o gymorth i ni ac a gyfoethogodd ein bywydau mewn amrywiol ffyrdd. A diolch am lefydd a llyfrau ac unrhyw beth arall a ddaw â rhai o'r cyfeillion hyn i'r cof, yn annisgwyl ar brydiau. Ac nid yn unig gyfeillion annwyl a gollwyd y medrwn ddiolch amdanynt. Diolchwn hefyd am y bobl dda yr ydym yn dal i fwynhau eu cwmni ac sy'n dal i'n cefnogi a'n cynorthwyo, boed deulu, cyfeillion, cymdogion, cydweithwyr neu gyd aelodau o Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist. I'r Cristion, rhoddion amlwg Duw, i'w mwynhau a'u gwerthfawrogi, ydi cariad a chyfeillgarwch. Diolch i Dduw amdanynt.

**JOHN PRITCHARD**

## Y Gerlan

**Caren Brown**
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Penblwydd Hapus**
Mi fydd yna dipyn o ddathlu yng Ngwaen Gwiail dros yr wythnosau nesaf wrth i deulu ddathlu penblwyddi arbennig Gareth Parry a Glesni Owen.

Trodd Gareth yn 60 ym mis Mai a bydd Glesni'n 30 ym mis Mehefin. Penblwydd hapus iawn i'r ddau ohonoch chi. Gobeithio bydd y dathliadau'n parhau am y misoedd i ddod!

**Prawf gyrru**
Llongyfarchiadau mawr i Dwynwen Pritchard Pen y Clwt am basio ei phrawf gyrru y tro cyntaf. Da iawn chdi Dwynwen. Gobeithio y byddi di'n mwynhau dy ryddid newydd.

**Penblwydd Priodas**
Llongyfarchiadau mawr i Phil a Barbara Styd y Ffynnon sydd yn dathlu eu penblwydd priodas aur ar y 29ain o Fai. Mae 50 mlynedd o briodas yn garreg filltir arbennig ac mae'r plant a'r teulu yn gyrru llawer o gariad atoch ar yr achlysur hapus yma.

Mae cwpwl arall yn dathlu pen-blwydd priodas arbennig hefyd sef Catrin a Dion Griffith-Jones Hen Gapel. Mae'n anodd credu bod 25 mlynedd wedi mynd heibio ers y diwrnod mawr Mehefin 16eg 2001. Llongyfarchiadau mawr i chi wrth ddathlu eich priodas arian.

**Rhedwyr Gerlan**
Dwi'n ymwybodol bod sawl un yn y pentref yn mwynhau rhedeg. Mae 'na 3 dwi'n ymwybodol ohonyn nhw wedi cwblhau rasys arbennig yn y mis diwethaf.

Llongyfarchiadau ar Megan Hughes ar gwblhau Marathon Excalibur ar y 10fed o Fai. Mae Excalibur yn ras heriol y oddi ar y ffordd ym Mryniau Clwyd. Dywedodd Megan fod y tywydd yn berffaith ar y diwrnod ac 'roedd wedi mwynhau'r golygfeydd godidog ar y daith. Daeth Megan yn ail yn ei dosbarth oedran – dipyn o gamp! Llongyfarchiadau mawr i ti Megan.

Mae Aled Jones o Stryd Goronwy hefyd wedi cwblhau her arbennig. Dyma i chi'r hanes yn ei eiriau ei hun:

**UTS 100km** 70 milltir (110k) a dros 20,000 troedfedd o ddringo (22 copa) dros fynyddoedd Eryri mewn 23 awr 16 munud.

Mae Ultra-Trail Eryri (UTS) yn cael ei ystyried yn un o rasys trail a mynydd fwyaf heriol y byd ac yn rhan o'r UTMB World Series, gyda rhedwyr o dros 70 o genhedloedd yn cystadlu eleni.

Roeddwn i'n cystadlu yn y ras categori 100 KM – cwrs creulon sy'n mynd drwy galon mynyddoedd Eryri. Roedd y ffaith mai dim ond tua 55% o redwyr y ras 100km lwyddodd i orffen yn dangos pa mor galed oedd yr amodau a'r cwrs eleni.

Dechreuodd fy ras i o Llanberis am 5:30 fore Sadwrn yr 16eg o Fai cyn dringo'r Wyddfa ac i lawr i Nant Gwynant, yna dringfa hir arall i gopa Moel Siabod cyn disgyn drwy' crib Daear Ddu i Dolwyddelan. O'r fan yma wedyn ymlaen dros y Rowen a lawr i Flaenau Ffestiniog drwy ffosydd gwlyb oedd yn teimlo'n ddi-ben-draw. Erbyn hynny roedd y tywydd wedi troi'n wael iawn gyda gwynt a glaw yn gwneud pob cam yn galetach.

Ar ôl cyrraedd Blaenau dyma ddringo eto drwy Gwmorthin ac ymlaen dros y Moelwynion cyn disgynfa serth a llithrig i Gwm Croesor sef union hanner ffordd drwy'r ras. Ar ôl hoi fach yn Croesor dyma ddringo Cnicht cyn adran arall corsiog hir yn ôl i Nant Gwynant ac ymlaen dros Fwlch Sygyn i Feddgelert. Cyrhaeddais fama tua 9 yr hwyr – rhyw ddwy awr yn hwyrach na'r disgwyl oherwydd y tywydd a dip mewn egni rhwng 60 a 80km. Ar ôl ail-setio gyda bwyd a chefnogaeth gan fy ffrind, Chris Williams o Fethesda, roedd hi'n amser wynebu un o adrannau caleta'r ras dros Foel Hebog, Moel yr Ogof, Moel Lefn a Chrib Nantlle yn y tywyllwch. Roedd hi'n un o'r profiadau mwyaf caled ond hefyd mwyaf cofiadwy dw i wedi'i gael yn y mynyddoedd.




Ar ôl dod drwy'r adran honno'n gryf, dim ond dringfa olaf Bwlch Maesgwm oedd ar ôl cyn disgyn yn ôl i Llanberis am 4.45 am i orffen mewn amser o 23 awr ac 16 munud. Dim ond ers ychydig dros ddwy flynedd dwi wedi bod yn rhedeg yn gyson, felly roedd cael cwblhau y râs wrth gynrychioli Eryri Harriers am y tro cyntaf yn foment dwi'n hynod falch ohono.

Llongyfarchiadau mawr i ti Aled a diolch am rannu'r profiad arbennig yma efo ni. Dyma lun ohono ar y llinell derfyn.

Llongyfarchiadau mawr i James Roberts, Bryncaseg, a redodd marathon Llundain eleni gan godi bron i £900 er budd i Ysgol Llanllechid a Hwb Rygbi genethod y Môr Ladron. Dwi'n siŵr bod yr awyrgylch yn wefreiddiol yna James. Mi fysa'n dda clywed mwy o'r hanes.




**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu'n Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ynys Môn yn ystod hanner tymor. Os oedda chi'n fuddugol neu beidio, mae'r ffaith bod chi wedi cyrraedd y genedlaethol yn gamp yn ei hun.



Un ddaeth yn ail yn yr Adran Celf a Chrefft yn y gystadleuaeth Addurno Ffabrig i ddisgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 oedd Margiad Morris Tan Garth. Llongyfarchiadau mawr i ti Margiad. Dyma lun o'i gwaith arbennig.

Llongyfarchiadau hefyd i Tomi Elis-Jones, 2 Stryd Fer daeth yn 2il drwy Gymru efo'i waith Celf yn Eisteddfod yr urdd. Pawb o teulu Bethesda a Waunfawr yn falch iawn.



## Caban Gerlan

*Caffi Trwsio*
Diolch i bawb ddaeth i Gaffi Trwsio'r Caban diwedd Mai. Bydd y Caffi Trwsio nesaf dydd Sul Mehefin 28 (11-1pm). Galwch draw am banad!

*Grŵp Gwnïo*
Bydd y grŵp gwnïo nesaf ymlaen nos lun y 29ain o Fehefin (6.30-8.30). Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwnïo o unrhyw fath neu'n meddwl dechrau gwnïo yna dewch draw am baned a sgwrs. Mae'n ofod cyfeillgar i gael syniadau, dysgu sgiliau newydd a chael chydig o help ac ysbrydoliaeth os oes angen. Os 'da chi awydd rhoi tro ar wnïo a dim efo peiriant, cofiwch fod modd benthyg peiriant o Lyfrgell Petha Pesda trwy archebu ar www.pethaupesda.myturn.com/library/

*Grŵp Gweu*
Ni fydd y grŵp gweu yn cyfarfod yn y Caban ym mis Mehefin a thros yr haf. Gobeithiwn y byddwn yn ail gychwyn y grŵp ym mis Medi.

*Diolch i Elusen Ogwen*
Bu'r Caban yn llwyddiannus yn eu cais am grant i Elusen Ogwen. Bydd y grant yn talu am "fascia boards", soffits a chwteri newydd y tu allan i'r adeilad gan fod y rhai presennol wedi pydru a thorri. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ac 'rydym yn ddiolchgar iawn i Elusen Ogwen am yr arian.

# Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

**Trysorau Rhiwlas**
Fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant y Neuadd cynhaliwyd helfa drysor ar droed o gwmpas y pentref ddechrau mis Mai gyda nifer o dimau yn cymryd rhan. Roedd yn galondid gweld nifer o blant Ysgol Rhiwlas yn cymryd rhan ac roedd eu brwdfrydedd yn amlwg. Bu pwyllgor y Neuadd yn cynnal cyfarfodydd i'w drefnu ac aeth y 'Meistr Cliwiau', Cynrig Hughes, ac Osian o gwmpas y pentref ymlaen llaw i wneud yn siŵr fod y cliwiau'n gweithio a phopeth yn ei le.

Meddai Sharon Griffith, aelod o bwyllgor rheoli'r Neuadd: "Roedden ni eisiau gwneud yr helfa mor ryngweithiol â phosib, hyd yn oed i'r rhai na allai gymryd rhan, felly roedd 'na fap yn y Neuadd fel y gallai pobl ddilyn y timau o gwmpas y pentref.

Roedd pedwar stiward o gwmpas y pentref, ac roedden nhw'n ffonio i mewn pan oedd timau'n mynd heibio.

Un o'r uchafbwyntiau oedd gweld yr 'Action Men' yn ffenest hen dŷ Anti Cadi – roedden nhw wedi'u gwisgo a'u gosod yn arbennig ar gyfer yr Helfa, ac roedd pawb wrth eu boddau yn eu gweld nhw yno.

Roedd hi'n braf iawn clywed bod pawb wedi mwynhau gymaint a rhai yn dweud nad oedden nhw wedi bod i rai rhannau o'r pentref ers blynyddoedd. Hyfryd hefyd oedd gweld cymysgedd mor dda o oedrannau'n cymryd rhan."

Meddai Cynrig Hughes: "Roedd yn galondid gweld nifer o blant Ysgol Rhiwlas yn cymryd rhan yn yr Helfa Drysor ar droed ac roedd eu brwdfrydedd yn amlwg. Roedd yn gyfle i'r rhai a gymerodd ran i ddysgu ychydig am y pentref gan fod y cliwiau'n aml yn mynd heibio i leoliadau hanesyddol. Daeth dau dîm i'r brig gyda'r un nifer o bwyntiau ond gyda chwestiwn ychwanegol Tîm Nia a Carol orchfygodd."



**Picnic yn y Parc**
Yn dilyn llwyddiant y Picnic y llynedd mae'r Cyfeillion wedi penderfynu trefnu un arall eto eleni! Gwnewch nodyn yn eich dyddiadur rŵan! Fel y llynedd, yn y cae chwarae y bydd yn cael ei gynnal a hynny rhwng 11 a.m. a 2 pm ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 18. Bydd yr un amrywiaeth ddifyr o weithgareddau hwyliog i'w cael â'r llynedd a rhywbeth i bawb ei fwynhau. Dewch yn llu – a chofiwch eich basgiad picnic!

## Clwb Rhiwen

Daeth aelodau'r Clwb at ei gilydd ar ddydd Mercher, Ebrill 15 yng Nghaffi Maes Awyr, Dinas Dinlle lle cafwyd pryd blasus; yn anffodus doedd y tywydd ddim yn ffafriol, felly doedd dim awyrennau na hofrenyddion yn hedfan. Er hynny cafwyd amser pleserus yn sgwrsio dros bryd blasus dros ben.

Ar Fai 20 roedd Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru i fod yn gwmni inni ond yn anffodus, oherwydd amgylchiadau personol, nid oedd yn bosib' iddynt ddod: cawn ail drefnu. Daeth Nia i mewn i lenwi'r bwlch gyda sgwrs am frodwaith o waith aur a dangosodd frodwaith roedd hi wedi ei wneud dros y blynyddoedd ynghyd â chasgliad o nwyddau o wahanol fath sydd eu hangen i gwblhau prosiect.

Sue a Kate oedd yn cynorthwyo Gareth i baratoi'r banad ym mis Mai. Ni fydd y Clwb yn cyfarfod yn y Neuadd ym mis Gorffennaf gan ein bod yn mynd allan am banad a theisen i ddiweddu'r tymor. Byddwn yn ymgynnull yn y Neuadd nesaf ym mis Medi.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â Chlwb Rhiwen rydym yn cyfarfod ar y trydydd prynhawn Mercher o'r mis am 2 o'r gloch yn y Neuadd Bentref. Mae croeso cynnes i chi ymuno â ni.




**Dathlu'r Cant**
Mae dathliadau canmlwyddiant y Neuadd yn parhau. Un o'r digwyddiadau oedd darlith gyhoeddus gan Cadi Iolen, Uwch Guradur Amgueddfa Lechi Cymru. Daeth nifer dda ynghyd i wrando ar gynlluniau'r ail-ddatblygu yn y Gilfach Ddu ac i dystio i'r gwaith sydd wedi ei gyflawni'n barod a beth i'w ddisgwyl pan mae'r safle'n ailagor. Diolch i noddwyr y noson, sef Menter Iaith Gwynedd, am ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Ymhlith y digwyddiadau eraill sydd ar eu ffordd mae'r canlynol (cofiwch gadw llygad ar y Calendr a'r cyfryngau cymdeithasol am y manylion diweddaraf):

**Prynhawn Sadwrn, Medi 26**: 'Profi Teisen Pen-blwydd y Neuadd'. Cyfle i'r ardalwyr ddod at ei gilydd i ddathlu'r canmlwyddiant ynghyd â chyn-bentrefwyr a chyn-aelodau'r pwyllgor rheoli. Bydd cyflwyniad gan Cynrig yn tynnu sylw at gyfraniad y Neuadd yn hanes y pentref a'r gymuned gyfan.

**Nos Sadwrn, Hydref 3**: Cyngerdd 'Steve Eaves a Rhai Pobl'

**Nos Wener, Tachwedd 20**: Cyngerdd Côr y Penrhyn

## Merched y Wawr

Kate oedd yn gyfrifol am gyfarfod mis Mai ac roedd hi wedi trefnu i Nigel Beidas ddod atom. Cawsom sgwrs ddifyr ac ymlaciol ganddo am hanes a defnydd o'r corlannau carreg, yn enwedig y rhai hynny ar y Carneddau. Fe ddysgon ni fod rhai ar ochr Ogwen y Carneddau yn dal i gael eu defnyddio, rhan hanfodol o'r modd y mae'r defaid yn cael eu rheoli ar gominau'r mynyddoedd. Yn gefnlen i'r sgwrs roedd ffotograffau hardd a ffilm drôn o'r broses o gasglu a sortio. Deirgwaith y flwyddyn – ar gyfer cneifio, mynd â'r ŵyn i'r mart, a dod â'r mamogiaid i lawr ar gyfer y gaeaf – bydd defaid yr ardal honno'n cael eu casglu i mewn i gorlan gasglu'r lloc. Bydd tua mil neu fwy ohonyn nhw wedyn yn cael eu dosbarthu yn wahanol gelloedd yn ôl pa fferm y maen nhw'n perthyn iddo. Cadeiriwyd y cyfarfod gan ein llywydd, Linda Jones, a ddiolchodd yn fawr i Nigel am ei sgwrs; Nia Jones a Cath Williams oedd yn gyfrifol am y baned

*Yn f'adroddiad ar gyfarfod Ebrill y gangen yn y rhifyn diwethaf mae gen i ofn fy mod i wedi camenwi ein siaradwraig wadd sef Eiddwen Jones yn ogystal â'i ffrind, Olwen Roberts, a ddaeth i gadw cwmni iddi hi a ninnau fel aelodau. Ymddiheuriadau a diolch eto, Eiddwen, am sesiwn mor ddifyr. (AG)*

**Abseilio i lawr Tŵr Marcwis!**




Os ydych chi, fel finnau, fymryn yn ofnus o sefyll mewn mannau uchel, mae meddwl am abseilio i lawr tŵr eiconig ar Ynys Môn yn siŵr o'ch llenwi efo dychryn – ac edmygedd hefyd.

Ond dyna'n union fu'r her i Ilaria Zanier fis Mai pa fu hi a phedwar o'i chydweithwyr yn Maethu Cymru-Môn yn abseilio 89 troedfedd o frig i waelod y Tŵr Marcwis eiconig ar gyrion Llanfairpwll er mwyn codi ymwybyddiaeth o faethu yn ystod Pythefnos Gofal Maeth wrth godi arian i Tŷ Gobaith.

Fe wnaeth y tîm gasglu £1,366 drwy roddion caredig a chododd yr her yn gyffredinol dros £22,000 ar gyfer elusen Tŷ Gobaith sy'n darparu gofal a chymorth hanfodol i blant gyda chyflyrau sy'n byrhau bywyd, ynghyd â'u teuluoedd.

Sut brofiad oedd o tybed?

"Dyma'r tro cyntaf erioed imi abseilio," meddai Ilaria. "Roedd hi'n wych gweld Rhiwlas o ben y Tŵr! Faswn i'n ei wneud o eto? Yn bendant! Ond ychydig yn uwch y tro nesa'!"

"Yr hyn oedd yn ei wneud mor sbeshial oedd gwybod 'mod i a'm cydweithwyr o Maeth Cymru yn codi arian ar gyfer achos nodedig."

Llongyfarchiadau fil, Ilaria!

1969
M.HUGHES A'I FAB
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

## Cyfeillion Rhiwlas

Mae Cyfeillion Rhiwlas dal mor brysur ag erioed a'r ddau ddigwyddiad nesaf fydd noson Bingo sydd i'w chynnal ar nos Sadwrn, Mehefin 20, yn y Neuadd am 6 o'r gloch a'r achlysur arall sydd bob amser yn boblogaidd – Coffi a Chacen – a hynny rhwng 1 a 3 o'r gloch y prynhawn ar brynhawn Sadwrn, Gorffennaf 4. Cofiwch mai'r cyntaf i'r felin biau hi, neu'r cyntaf at y bwrdd cacennau yn sicr!

## Capel Shiloh Newydd Rhiwlas

Dyma fanylion y gwasanaethau a gynhelir ar y Suliau canlynol yn y Neuadd yn ystod yr wythnosau nesaf:

**Gorffennaf 5:** Parch R.O.Jones, 2p.m.
**Gorffennaf 12:** Dr Huw Tegid Roberts, 2p.m.

Yn ôl yr arfer dros wyliau'r haf ni chynhelir gwasanaethau weddill Gorffennaf ac Awst ond byddwn yn ailagor y drysau ar fore Sul, Medi 13, pryd y disgwyliwn y Parch John Gwilym Jones i'n gwasanaethu am 10 y bore. Croeso cynnes i bawb.

BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS
01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# YSGOL RHIWLAS

### Ymweliad Smurf

Gyda ychydig o deithiau cerdded wedi eu trefnu dros y misoedd nesaf, daeth Smurf i'n gweld ni am sgwrs difyr. Daeth i'r ysgol i siarad gyda dosbarth yr Onnen am gerdded mynyddoedd yn ddiogel.

Roedd pawb yn gyffrous i glywed ei straeon ac i ddysgu sut i fwynhau'r awyr agored heb beryglu eu hunain a pham ei bod hi'n hollbwysig gwirio ein taith cyn cychwyn. Cawsom gyfle i edrych ar wahanol ddarnau o git pwysig a gofyn cwestiynau iddo am ei waith. Rydym yn edrych ymlaen yn arw am ein anturiaethau!

### Croeso i Mr Rogers

Rydyn ni'n hapus iawn i groesawu Huw Rogers, myfyriwr o Brifysgol Bangor, i Ysgol Rhiwlas. Bydd Huw gyda ni yn ddosbarth yr Onnen tan yr haf, ac mae'n barod i ymuno yn yr hwyl a'r dysgu.

Mae Huw yn dod â llawer o egni ac awydd i weithio gyda'r plant, ac rydyn ni'n siŵr y bydd pawb yn ei fwynhau'n fawr. Croeso mawr i ti, Huw – mwynha dy amser gyda ni.

### Sesiwn Arwyddo gyda Ceri

Roedd yr ysgol yn llawn cyffro pan ddaeth Ceri i ymweld a'r ysgol i arwain sesiwn arwyddo Makaton i bawb. O'r eiliad y dechreuodd, roedd hi'n llawn egni ac yn gwneud i bawb deimlo'n rhan o rywbeth arbennig.

Dysgodd y plant arwyddion newydd drwy ganeuon hwyliog, ac roedd yn hyfryd gweld cymaint o wynebau'n disgleirio wrth iddynt feistroli pob un. Roedd Ceri'n dangos yn glir fod Makaton yn fwy na dim ond arwyddion — mae'n ffordd o gysylltu, cefnogi a deall ein gilydd. Diwrnod i'w gofio, a gwersi fydd yn aros gyda ni am amser hir.






### Pili Palas

Bu Dosbarth Derwen (Mrs Medway) ar drip bendigedig i Pili Palas, Sir Fôn, yn dilyn cyfnod o ddysgu am drychfilod yn yr ysgol. Roedd y plant wrth eu boddau'n gweld y creaduriaid bach hyn yn fyw, ar ôl eu hastudio yn y dosbarth.

Cawsant gyfle i arsylwi gloÿnnod byw lliwgar, edrych ar yr holl greaduriaid bach a dysgu mwy am fywyd pryfed mewn ffordd ymarferol a hwyliog.

Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd parti trychfilod arbennig i ddathlu diwedd y thema. Daeth y plant wedi'u gwisgo fel pryfed o bob math, o wenyn i bry copyn a gloÿnnod byw. Roedd y diwrnod yn llawn chwerthin, creadigrwydd a dysgu, ac roedd pawb yn cytuno mai hwn oedd un o uchafbwyntiau'r tymor.

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Cartref newydd**
Dymuniadau gorau i Mrs Glena Bevan, Red Lion gynt, yn ei chartref newydd yn Nghaerdydd.

## Capel Carmel Llanllechid

Oedfaon 5pm Dydd Sul
Mehefin 21 Parchg Sara Roberts
Mehefin 28 Parchg Alan Spencer
Gorffennaf 5 Parchg R O Jones
Gorffennaf 12 Parchg Olaf Davies
Gorffennaf 19 Parchg Hugh Pritchard
Ysgol Sul 10:30am
Clwb Dwylo Prysur 6:30pm Gwener

**Plant ac Ieuenctid**
Bu'r plant yn casglu blodau gwylltion ac mi gawson nhw hwyl wedyn wrth dynnu lluniau ohonyn nhw a dysgu enwau'r blodau yn ogystal â chwilio am adnodau o'r Beibl sy'n cynnwys enwau blodau.

Ar ddiwedd mis Mai, mi gawsom ni oedfa fendithiol iawn dan arweiniad y plant a'r bobl ifanc. Rhoddodd y plant a'r bobl ifanc o'u gorau i gynnal gwasanaeth hwyliog a llawn bywyd.

Roedd y tywydd yn braf iawn ar y diwrnod hwnnw hefyd. Mi gafwyd casgliad hael o £170 i'w roi tuag at Gymorth Cristnogol.

Ar ôl y gwasanaeth, roedd yna gwpanaid i'w yfed a rhywbeth blasus i'w fwyta (a hufen rhew i'r plant) yn yr Ysgoldy. Diolch i Stella, Sarancha, Alis, a Helen am helpu yn y gegin, a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Diolch hefyd am y rhodd i'r Ysgol Sul gan Sarancha a Rameshkanthan, Siop y Post, Rachub.



## Clwb Hanes Rachub

Daeth tymor diweddara'r Clwb Hanes i ben ddiwedd Ebrill, ac yn wir bu'n flwyddyn lwyddiannus arall – digon o hwyl, amrywiaeth a chyflwynwyr ardderchog.

Yn y cyfarfod olaf, croesawyd Gwenlli Thomas o 'Menter Môn' i'n plith. Dangosodd ffilm fer i ni sef 'Ein Hanes Ni: Llanllechid a'r Ardal'.



Ffilm oedd hon yn cynnwys plant o Ysgol Llanllechid yn holi tri o oedolion o'r ardal sef Vivienne Parry, Helen Williams ac Eifion Hughes. Cafwyd nifer o hanesion difyr am Rachub 'ers talwm', gan gynnwys eu hargraffiadau o Huw Sgŵd, William Griffith, Madam Chips a Twm Sion Cati!

Portreadwyd pentref Rachub fel cymdeithas glòs, hapus, diogel a Chymraeg-pawb yn sgwrsio, trafod, helpu a chynnal ei gilydd, yn enwedig o gofio bod Vivienne, Helen ac Eifion yn tyfu i fyny yn y cyfnod oedd yn dilyn y Rhyfel.

Roedd y ffilm yn rhan o brosiect oedd yn canolbwyntio ar bontio'r cenedlaethau, ac yn bendant, llwyddodd i wneud hynny. Diolch i Gwenlli a phawb o Ysgol Llanllechid oedd yn gysylltiedig â'r fenter am eu gwaith caled – yn arbennig y disgyblion a oedd yn holi'r cwestiynau mor broffesiynol. Mae'r ffilm i'w gweld ar y we erbyn hyn.

Yn ail hanner y noson, cafwyd cwis a oedd yn cynnwys 40 cwestiwn a £50 yn wobr i'r tîm buddugol! Roedd wyth tîm yn cystadlu, ond y tîm a ddaeth i'r brig, gan ennill o hanner marc yn unig oedd Mary ac Angharad! Llongyfarchiadau mawr iddynt!

Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant y Clwb Hanes yn ystod y tymor a aeth heibio – y siaradwyr, y pwyllgor, swyddogion y Clwb Criced ac wrth gwrs yr aelodau ffyddlon sy'n mynychu'r cyfarfodydd. Fe'ch gwelwn yn yr Hydref!

## Yr Eglwys Unedig

**Diolch**
Diolchwn yn gynnes iawn i'n Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths, ac i'r Parchedig Olaf Davies, am wasanaethu yn ein hoedfaon yn ystod y mis. Cawsom wasanaeth undebol hyfryd dros ben yng Nghapel y Rhos, Llanrug, a hefyd oedfa Cymorth Cristnogol o dan ofal ein Gweinidog yma yn Jerusalem.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cywiraf at y rhai ohonoch sydd wedi dioddef anhwylder yn ddiweddar. 'Rydym yn falch iawn o weld Mrs Olwen Williams yn ôl efo ni yn dilyn salwch. Gobeithiwn y bydd Mrs Rhiannon Ifans yn gwella'n foddhaol yn dilyn llawdriniaeth yn yr ysbyty. Mae ein meddyliau hefyd gyda Mrs Vera Morgan, sydd yn bur wael ar y funud.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau gwresog iawn i Beti Rhys ar ei llwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ynys Môn 2026 gyda disgyblion Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon – gwych, Beti!

Daeth llwyddiant i amryw eraill o'r Dyffryn hefyd – anfonwn ein llongyfarchiadau atynt hwythau. Mae doniau'r ifanc, a'u parodrwydd i weithio'n galed, yn codi calon mewn oes llawn helyntion.







**Difrod**
Gyda siom o'r mwyaf y gwelsom y difrod difrifol a wnaethpwyd i ffenestri, ac ystafelloedd cefn y Capel yn ystod mis Mai. Mae'n anodd deall pam yn y byd mae pobl yn creu'r fath lanastr – ac mae'r cyfan yn dorcalonnus. Mae'r heddlu yn ymchwilio i'r digwyddiad, ac 'rydym yn gobeithio y caiff y dihirod sydd yn gyfrifol eu dal a'u cosbi'n llym.

**Cyhoeddiadau'r Sul:**
Mehefin 14: Y Parchedig Mererid Mair (5)
Mehefin 21: Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans (5)
Mehefin 28: Undebol yma yn Jerusalem (10)
Gorffennaf 5: Mrs Eirlys Williams (10)
Gorffennaf 12: Y Parchedig Huw Pritchard (5)
Gorffennaf 19: Gweinidog (10)
Gorffennaf 26: Undebol ym Methel (10)
Dalier sylw: Ni fydd oedfaon yn ystod mis Awst.

# YSGOL LLANLLECHID

**Nofio Blwyddyn 2**
Mae dysgwyr Blwyddyn 2 wedi bod yn elwa'n fawr o'u sesiynau nofio yn ddiweddar. Mae wedi bod yn bleser gweld y plant yn magu hyder yn y dŵr ac yn datblygu sgiliau pwysig dros ben sy'n rhoi sylfaen wych iddynt ar gyfer y dyfodol.

**Sesiwn Makaton gyda Ceri**
Cafwyd ymweliad arbennig gan Ceri, a ddaeth i redeg sesiwn arwyddo Makaton gyda'r plant. Roedd yn gyfle gwych i bawb ddysgu ffordd newydd o gyfathrebu, ac roedd brwdfrydedd y disgyblion yn amlwg wrth iddynt fwynhau ac elwa o'r sesiwn gynhwysol hon.



**Blwyddyn 5 yn Glan-llyn**
Bu criw Blwyddyn 5 ar ymweliad cyffrous â gwersyll yr Urdd yng Nglan-llyn. Cawsant amser bendigedig yn herio'u hunain gydag amrywiaeth o weithgareddau awyr agored ac anturiaethau ar y llyn, gan ddychwelyd adref yn llawn straeon hapus ac atgofion i'w trysori.




**Blwyddyn 6 yng Nghaerdydd**
Bu I Blwyddyn 6 deithio i lawr i'r brifddinas ar gyfer eu hymweliad preswyl. Cafwyd tridiau gwefreiddiol yng Nghaerdydd yn ymweld ag atyniadau hanesyddol a diwylliannol, gan roi profiad addysgol a chymdeithasol amhrisiadwy iddynt.

**Ymweliad Gethin Tomos**
Bu i ni groesawu Geth yma ar gyfer ei sesiynau cerddorol llawn hwyl. Roedd y plant wrth eu boddau yn perfformio ac yn cydweithio. Roedd y mwynhad o fod yn arbrofi a bod yn greadigol yn amlwg. Diolch Geth!!

**Croeso i Miss Sophie Hughes**
Yn olaf, mae'n bleser gennym groesawu Sophie Hughes i deulu'r ysgol. Mae Sophie yn fyfyrwraig TAR a fydd yn gweithio ochr yn ochr â ni tan ddiwedd y flwyddyn academaidd hon. Rydym yn hyderus y bydd yn gaffaeliad mawr i ni ac yn cael cyfnod hapus yma yn Llanllechid.


---

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

CANOLFAN CEFNFAES
**Gyrfa Chwist**
**Mehefin 23 a 30**
**Gorffennaf 14 a 28**
am 6.45yh.
Croeso i bawb

**Clwb Coffi Talybont**
**FESTRI BETHLEHEM**
**Boreau Llun, 10.30 – 12.00**
**Mehefin 29**
Croeso cynnes i bawb






FESTRI BETHLEHEM
TALYBONT
**TE MEFUS**
**Nos Fercher, 1 Gorffennaf**
**am 7 o'r gloch**
**Mynediad : £2.00**

**SEFYDLIAD Y MERCHED CARNEDDI**
Cyfarfod ar nos Iau cyntaf o'r mis yn Festri Capel Jerusalem am 7 o'r gloch
*Croeso cynnes i aelodau newydd*

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

*Gwasanaeth Ffarwel dros y Pentecost*
Daeth eglwysi Bro Ogwen ynghyd ar y Sulgwyn neu'r Pentecost nid yn unig i ddathlu'r Ŵyl ond hefyd i ddweud ffarwel a dymuno'n dda i'n Arweinydd Bro Gareth ac Elizabeth Lloyd. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y ficer ei hun gyda chymorth ein Caplan Bro y Parchedig Sara Roberts gyda chyfraniadau gan aelodau o'r chwe eglwys. Yr organyddes oedd Christine Edwards o Eglwys Glanogwen. Gyda'r plwyfolion yn y gynulleidfa oedd y Parch John Bleazard Mynydd Llandygai a'r Archddiacon David Parry. Anrhegwyd Gareth ar ran y Fro gan Catrin Hobson (St Cross Talybont) a Rosemary Williams (Gelli Tregarth).

Cyflwynwyd llun hyfryd o Bont y Borth wedi ei dynnu gan Chris Owen, mab yng nghyfraith Rosemary. Derbyniodd y ddau hefyd flodau, cardiau a rhoddion eraill i ddathlu yr achlysur. Ar ôl gwasanaeth llawn teimlad symudodd y gynulleidfa i Neuadd Talgai i fwynhau bwffe a gynigwyd gan Gareth ac Elizabeth fel diolch am y cefnogaeth a gafwyd gan y chwe eglwys yn ystod eu habsenoldeb o'r fro.

Diolchwyd iddynt am eu haelioni ac i bawb a gyfrannodd at y gwasanaeth ac a fu yn paratoi yr eglwys a'r neuadd gan Ann E. Williams Eglwys Llandygai.

Fel yr eglurwyd cyn y Pasg, nid oedd y newydd o ymddeoliad y Parchedig Ddr Gareth Lloyd ar sail iechyd yn un annisgwyl. Mae Gareth wedi ac yn dal i ddioddef o afiechyd ers misoedd hir. Dymunwn iechyd, pob lwc ac hapusrwydd iddo ac i Elizabeth yn eu hymddeoliad o gyfrifoldebau plwyf.

*Ymddeoliad Stephen Thompson, Trysorydd Eglwysi Bro Ogwen*
Yn y dyfodol agos bydd Stephen Thompson (Eglwys St Ann's Mynydd Llandygai) yn cael ei anrhegu ac ôl ei ymddiswyddiad o fod yn drysorydd i gyfrif banc Eglwysi Bro Ogwen. Mae Stephen a'i wraig Lesley, organyddes Mynydd Llandygai, yn symud i lawr at eu teulu yng Nghaerdydd. Dymunwn yn dda iddynt.

**Priodas**
Priodwyd Shelley Oates o ardal Maesgeirchen Bro Deiniol a Gareth Steele, yn wreiddiol o Bont-newydd, ar brynhawn Sadwrn Mai 16eg gyda'r Parch Sara Roberts yn gweinyddu. Dymuniadau gorau iddynt a'u teulu yn eu bywyd priodasol.

**Eglwys Agored**
Mae tymor Eglwys Agored wedi cychwyn ers Pasg ac estynnwn groeso i bawb i ymweld â'r adeilad er mwyn darganfod hanes yr eglwys a'r fynwent, gweld cofeb Archesgob John Williams (John Iorc) ac i fyfyrio'n dawel mewn awyrgylch ysbrydol ac hanesyddol. Mae'r eglwys ar agor pob dydd o ganol bore hyd y prynhawn hwyr.

**Y Fynwent**
Ers blynyddoedd bellach rydym yn dathlu bioamrywiaeth yn y fynwent a chyfrannu at waith sy'n cefnogi bywyd gwyllt a chynefinoedd lleol drwy atal torri'r gwair nes mae tymor blodau'r gwanwyn drosodd (Mai Di-dor).



Eleni mae Wythnos Genedlaethol Mynwentydd Mehefin 6 – 14 yn gyfle i ddathlu byd natur, prydferthwch, tawelwch a phwysigrwydd hanesyddol ein mynwent. Er nad yw'r fynwent fel lawnt gardd, mae'r bywyd gwyllt yn ffynnu ac yn cael amser i wreiddio. Wrth gwrs, cedwir y llwybrau ar agor yn y cyfamser i hwyluso mynediad at y beddau teuluol neu hanesyddol.

*Mis Rhodd ein nawddsant Sant Tegai*
Mae mis Mehefin yn gyfle i ni ddathlu bywyd a gwaith ein nawddsant Sant Tegai. Diolch i bawb sydd wedi cyflwyno rhodd yn ddiweddar: mi fydd yr arian yn cael ei ddefnyddio, yn ôl ein arfer, i gynnal a chadw ein adeilad hardd.

Os dymunwch gyfrannu, mae'n bosib talu drwy drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: **Llandegai Church 30-90-43 00098435** neu drwy siec yn daladwy i Eglwys Llandegai Church, neu arian parod mewn amlenni trwy'r blwch postio i'r swyddogion:
Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719)
Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369)
Edmond Douglas Pennant (Trysorydd Dros Dro), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU.

**Gwasanaethau**
*Ar y Sul*
Mae gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis.
Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth pob eglwys.

**Ar Ddydd Mercher**
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt**
Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, gofynnwn i chi gysylltu gyda'n Deon Bro, Canon Dylan Williams, sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwysi ym Mro Ogwen DylanWilliams@churchinwales.org.uk. Wrth gwrs gallwch hefyd gysylltu yn lleol â'n Caplan Bro, Parch Sara Roberts SaraRoberts@churchinwales.org.uk.

**Cyngor Llandygai**
Cafodd y Cyngor gyfle i gyfarfod ag Emyr Gareth a Simon Roberts o YGC, (Ymgynghoriaeth Gwynedd) i gael diweddariad ar Gynllun Lliniaru Llifogydd Mynydd Llandygai a'r cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yma.

Mae'r Cyngor yn parhau i fynd ar drywydd y materion sy'n ymwneud â'r fynedfa i Tal y Cae, lle nad yw'r gwair wedi ei dorri eto, yn ogystal â'r problemau ar Ffordd Hafodty.

## Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Cyngor ar Nos Iau 14fed o Fai. Etholwyd y Cadeirydd am y flwyddyn 2026/2027, Y Cyng. Robin Williams a'r Is Gadeirydd Y Cyng. Kevin Williams.

Hoffem ddiolch i'r Cyn Gadeirydd Y Cyng. Rhydian Williams am ei holl gwaith yn ystod 2025/26.
Hefyd yr isod,
**Is Bwyllgor Mynydd** – Y Cyng Wyn Bowen-Harris, Y Cyng Robin Williams, Y Cyng Dafydd Jones
**Is Bwyllgor Llwybrau –** Y Cyng Dafydd Keith Jones, Y Cyng Kevin Williams, Y Cyng Lowri Evans
**Is-Bwyllgor Cyllid** – Y Cyng Robin Williams, Y Cyng Geraint Hughes, Y Cyng Kevin Williams
**Is-Bwyllgor Cae Chwarare Talybont** – Y Cyng Wyn Bowen-Harris, Y Cyng Evan Jones, Y Cyng Alun Thomas, Y Cyng Rhydian Williams, Y Cyng Geraint Hughes.
**Is-bwyllgor Traeth Lafan** – Y Cyng Alun Thomas, Y Cyng Dafydd Jones, Y Cyng Geraint Hughes



Y Cadeirydd, Y Cyng. Robin Williams

**Cynrychiolydd Ynni Ogwen** – Y Cyng Rhydian Williams
**Cynrychiolydd Partneriaeth Ogwen** – Y Cyng Lowri Evans

Mae hi'n adeg honno o'r flwyddyn eto pan mae'r llwybrau troed angen sylw. A allech chi anfon e-bost os gwelwch yn dda os dewch chi ar draws unrhyw lwybrau troed sydd angen eu clirio.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, Mehefin 11fed.

# Chwedl a Choel yn Nyffryn Ogwen (14)

## Gan Howard Huws

### Arferion Claddu

Sôn yr oeddem ni, y tro diwethaf, am hen arferion claddu. Un o sylwadau William Williams, 220 o flynyddoedd yn ôl, oedd:

"Pan yw'r cynulliad [yn y tŷ galar] yn llawn, mae clerc y plwyf yn darllen gwasanaeth cyffredin Claddu'r Meirw, ar ddiwedd pa un cenir salmau, emynau a chaneuon duwiol eraill; a chan fod Methodistiaeth wedi dod mor gyffredinol, mae rhywun yn sefyll ac yn traddodi araith ar y pwnc prudd, ac yna mae'r cynulliad yn ymadael fesul dipyn."

Ergyd hyn oedd bod cynnydd moesoldeb Anghydffurfiol wedi newid arferion pobl. Ychydig flynyddoedd ynghynt, roedd gwylnos mewn tŷ galar yn achlysur meddwi, chwaraeon a rhialtwch. Dim rhyfedd fod pregethwyr yn gwgu ar y fath ymddygiad!

Roedd yna ganu, hefyd. Tua 1860 clywodd Elias Owen gan John Evans, Llanrwst (oedd yn 60 oed) am ŵr o blwyf Llandygái a arferai fynychu gwylnosau'r cylch fel canwr marwnadau: rhan hynafol iawn o'r traddodiad barddol Cymraeg. Dywedodd John Evans yr arferid cyflogi pobl i ganu marwnadau o'r fath, a chofiai linellau o rai ohonynt.

Dyma rai arferion eraill y clywais sôn amdanynt yn Nyffryn Ogwen. Un oedd "danfon", sef mynd i dŷ galar cyn y cynhebrwng, a rhoi pres ar hances wen ar fwrdd bach. Mae hyn yn parhau, i raddau, wrth inni fynd â phaced o de neu fisgedi ar achlysur o'r fath, a'r un yw'r diben symbolaidd: rhoi cymorth i deulu dalu treuliau'r claddu.

Cynhelid gwasanaeth byr "codi'r corff" yn y tŷ, cyn mynd i gapel neu eglwys ar gyfer y cynhebrwng, ac yna'r gwasanaeth claddu ei hun wrth y bedd. Weithiau eid yn syth o'r tŷ i'r fynwent. Un cymeriad amlwg yng nghynebryngau ochrau Rachub oedd Now Caera', un o Gaerau yn ymyl Caerdydd. Ei swydd o fyddai cerdded yn urddasol o flaen y cynhebrwng, wedi'i wisgo'n drwsiadus, wrth fynd i'r fynwent.

Os oedd gwaelod y bedd yn wlyb iawn, taenid blawd llif neu wellt yno: 'doedd neb am weld arch yn nofio. Yn Glasinfryn, eid â phlant i gynhebrwng, ac ar ddiwrnod cynhebrwng byddai llenni pob tŷ yn y pentref ar gau hyd nes i bobl ddychwelyd o'r fynwent. Yr oedd dynion a merched yn mynd i gynhebrwng, er y cofiai rhai efo teulu yn y De fod hynny'n wahanol i'r arfer yno, lle dim ond y dynion oedd yn mynd.

Pan gollodd Margaret Roberts, Glan Llugwy, faban newydd-anedig yn Ysbyty Bangor ym 1941, dywedwyd wrthi y byddai'n rhaid ei gladdu wedi machlud haul, am fod hynny'n "gyfraith gwlad." Wn i ddim faint oedd a wnelo hynny â chyfraith, ond yr oedd yn arferiad gan Gatholigion Rhufeinig, ac Anglicaniaid i raddau, beidio â chaniatáu claddu babanod nad oedd wedi'u bedyddio mewn tir cysegredig: a'r arfer yn Iwerddon oedd eu claddu wedi iddi dywyllu. Clywais innau am gladdu plant gyda'r nos ym mynwent Eglwys Llanllechid, hefyd, a bod bedd plant torfol yno, oherwydd y Clefyd Du. Mae'n ddiddorol fod yr hen arfer neu goel hon wedi parhau yma tan y 1940au, o leiaf.

Gwisgid dillad galar duon wedi'r claddu, a chaeid llenni'r tŷ am wythnos neu bythefnos wedyn. Yn yr hwyr ar y Sul cyntaf wedi'r cynhebrwng, deuai'r teulu i gyd i'r capel efo'i gilydd, lle byddai gweddill y gynulleidfa yn eu disgwyl, yn fath o orymdaith ffurfiol. Roedd un wraig o Rachub a holais yn cofio'i nain yn gwisgo du am weddill ei hoes wedi iddi golli ei gŵr. Yn ôl un arall, byddai gwraig weddw'n gwisgo du yn unig am gyfnod maith, ac yna ychydig borffor hefyd.

Fel y gellid disgwyl ym Methesda, byddai gan rywrai bethau ffraeth i'w ddweud am yr holl fusnes claddu. Roedd un cymeriad yn ei weld yn chwith iawn rhoi malurion llechi i addurno bedd, "Fel petai rywun heb weld digon ohonynt yn y chwaral!" A bygythiodd un arall roi llechen fawr, drom ar fedd ei wrthwynebydd, "i wneud yn siŵr na ddeui di ddim allan!"

Os gwyddoch chi am unrhyw arferion neu draddodiadau sy'n ymwneud â throbwyntiau neu ddigwyddiadau pwysig fel canlyn, priodi, geni a chladdu, rhowch wybod i Howard!

Byddai'n falch iawn o glywed unrhyw hanesion gennych. Gallwch gysylltu gyda Howard trwy anfon neges ato yn cyfarchiad@yahoo.co.uk neu ei ffonio ar 07748 495537.

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**
mairpenybryn@gmail.com
01248 352966

**Swydd Newydd**

Llongyfarchiadau mawr iawn i Sharon Parry, Yr Hen Ardd, Caerhun ar ei phenodiad fel Pennaeth Ysgol Gynradd Llanbergoch Ynys Môn. Mae'r teulu yn hynod falch o'i llwyddiant ac yn dymuno gyrfa newydd a phennod newydd cyffrous a llewyrchus iddi.

Dymuniadau gorau hefyd i Dylan, gŵr Sharon, ar ei ymddeoliad o ddysgu ar ôl dros 32 o flynyddoedd yn y proffesiwn.

**Cydymdeimlad**

Ddiwedd Mai bu farw John Kew, Fferm Glanrafon, Glasinfryn. Estynnwn ein cydymdeimlad â Lesley, ei wraig a'r merched yn eu colled a'u hiraeth.

**Bingo Bach**

Daeth nifer dda i'r noson Bingo a gynhaliwyd yn y Ganolfan ar 29 Mai. Yr elw o £190 yn mynd tuag at y Ganolfan.

Diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi boed drwy gyfrannu gwobrwyon tuag at y raffl, bingo neu'r tombola. Cynhelir y Bingo nesaf ar 26 Mehefin am 7yh yn y Ganolfan. Croeso cynnes iawn i bawb.

**Cylch Glasinfryn**

Cafwyd cyfarfod pleserus iawn o'r Cylch ar 13 Mai yng nghwmni Carol Williams, y garddwr sydd yn cyfrannu at raglenni garddio ar S4C a Radio Cymru. Roedd Carol wedi dod a dwsinau o blanhigion gan roi cynghorion a syniadau ar sut i ni ofalu amdanynt.

Roedd llawer o'r planhigion yn "specimens" newydd fel Hydrangea bychan mewn porffor hyfryd a Lelog bychan fyddai'n hapus iawn mewn potyn. Anogodd ni i fod yn anturus wrth ddefnyddio lliwiau llachar yn ein borderi a photiau




fyddai'n tynnu sylw.

Talwyd y diolchiadau gan Jean gyda Kath, Margaret a Jean yn gweini'r te. Enillwyd y raffl gan Kath.

Ar 8 Gorffennaf byddwn yn mynd ar ymweliad i M-Sparc yn y Gaerwen lle cawn ein tywys o gwmpas gan aelodau'r staff a chael gwybodaeth am beth sydd yn mynd ymlaen yno!

# CROESAIR





**AR DRAWS**

1 Codi a mynd fel aderyn ar y blaen dros y clawdd (5)
4 Caffi da ; digon o ddiod ; dewis amrywiol o de - - - - - (1,4)
10 Lladd ar, a bychanu (7)
11 Mewn llawer waun a maes a dôl (5)
12 Dylanwadu ac ysgogi (5)
13 Ffordd o feddwl sy'n llywio'r weithred (7)
15 Fferins, neis, neis (2,2)
17 Di-ffrwt a heb nerth wedi tacluso gwaen (5)
19 " - - - - - 'n perarogli sydd, A'i hun mor dawel yw". Beddargraff enwog (2,3)
22 Wedyn yn daclus heb y blerwch i ddarllen nofel plant enwog E. Tegla Davies (4)
25 Swnio fel dau yn darparu i osod llechi i gysgodi tŷ (7)
27 Rhoi'r ail ar ddiwedd ynys ogleddol a chael hanes celwyddog (5)
29 O un ochr i'r llall yn drefnus heb losgi (5)
30 Rhoi darluniau neu waith celf i'w gweld mewn oriel (7)
31 Cariad Trystan medd y chwedl (5)
32 Peidio bod mor oer yn Nyffryn Ogwen - *ar lafar* (5)

**I LAWR**

2 'Fala'n syrthio'n fudur i'r mwd a baw (5)
3 Llwybr cysgodol o gwmpas adeilad (7)
5 Ewch ŵr i yfed cwrw nad yw'n felys (5)
6 Coeden all fod yn arian neu goch (7)
7 I'w ddychwelyd i'r hyn ydoedd (5)
8 Dewi'n troi'n ôl yn ddiogel ond cael anaf (5)
9 Swnio fel pe bai panda neu Paddington wedi bod ar y fferm rhyw dro (5)
14 "Golch fi'n burlan yn y gwaed, A - - - - ar Galfari " *emyn enwog iawn* (4)
16 - - - - Domini – oed y flwyddyn (4)
18 Belt yn y car er diogelwch (7)
20 Ynys Wilde a Best (7)
21 Gŵyl bwysig y calendr Cristnogol (1,4)
23 Gwlad lle ceir pasta a pitsa traddodiadol (5)
24 Neges destun electronig (5)
26 Trefnu toll er mwyn cludo'r peiriant nyddu (5)
28 Llongau rhyfel (5)

**ATEBION CROESAIR MAI 2026**

**AR DRAWS** 1 Mac, 3 Clust, 7 Llipa, 8 Rownderi, 9 Coel Gwrach, 12 Taldra, 13 Nawfed, 15 Epigramau, 18 Atlas Lliw, 20 Wedi, 21 Glöyn, 22 Nen

**I LAWR** 1 Maith, 2 Crancod, 3 Cyw, 4 Uchder, 5 Taro Chwech, 6 Croesair, 10 Ganu Mawl, 11 Talentog, 14 Waun Wen, 16 Idaho, 17 Odyn, 19 Llyn

(7 Ar Draws) oedd y camgymeriad mwyaf y tro yma, a chafwyd pump ohonoch yn cynnig 'tila' yn ateb yn lle 'llipa'. Roedd yr ateb cywir yn y cliw. Cafwyd un 'cwla' hefyd. Gwall arall oedd ' mawr' yn lle 'maith' (1 I Lawr), a 'coel garwch' yn hytrach na'r ateb cywir 'coel gwrach' (9 Ar Draws)

Dyma'r rhai anfonodd atebion cywir y tro hwn: Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Barbara Jones, Talybont; Doris Shaw, Rita Bullock, Bethesda; Wendy Eccles, Llanllechid; Iona Williams, Llanddulas; Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Tregarth; Dilys Parry, Rhiwlas; John Ffrancon Griffith, Abergele; Judith Hughes, Llangoed; Stella Dafis, Rachub

Llongyfarchiadau i Rosemary Williams, 19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, Bangor LL57 4AH am fod y cyntaf o'r het i dderbyn y wobr y tro yma.

Atebion erbyn 3ydd Gorffennaf, 2026 fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Mehefin', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

***Bydd y CHWILAIR yn dychwelyd mis nesa***


SPAR
**01248 605566**
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos